



ASESU EFFAITH AMGYLCHEDDOL - YMGYNGHORIAD TECHNEGOL AR Y CYD (cynllunio newidiadau i reoliadau ar Goedwigaeth, Amaethyddiaeth, Adnoddau Dŵr, Draenio Tir a Gwaith Morol)

14 Rhagfyr 2016

[Mis] 2016
Defra

Cynnwys

Nodyn - Gadael yr Undeb Ewropeaidd	4
Tabl Cryno	5
Rhan 1: Egluro'r ymgynghoriad - natur y gwaith	8
Cyflwyniad	8
Byrfoddau	9
Beth yw diben yr ymgynghoriad hwn?	10
Pwy fydd â diddordeb mewn ymateb?	10
Rhan 2: Cefndir Cyfarwyddeb 2014/52/EU	11
Hanes	11
Gweithredu	11
Y broses Asesu Effeithiau Amgylcheddol	14
Prif gamau'r broses	15
Cynigion ar gyfer trosi	17
Coedwigaeth	17
Amaethyddiaeth ac Adnoddau Dŵr	17
Draenio Tir	17
Gwaith Morol	18
Ffermio Pysgod Asgellog mewn Dyfroedd Morol	19
Y cynigion rydym yn ymgynghori arnynt/diwygiadau i'r rheoliadau	19
Adran 1 - Darpariaethau Cyffredin	19
Diffiniadau	19
Esemptiadau	20
Gweithdrefnau cydgysylltiedig a gweithdrefnau ar y cyd	21
Sgrinio	22
Trothwyon	23
<i>Trothwyon ar gyfer Prosiectau Coedwigo</i>	23
<i>Trothwyon ar gyfer Prosiectau Coedwigo yn Lloegr</i>	24
<i>Trothwyon ar gyfer Prosiectau Coedwigo yng Nghymru</i>	25
Y cyfnod o amser ar gyfer gwneud penderfyniadau sgrinio	26
Cwmpasu	27
Ymgynghori ag eraill ym mhroses Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol	28
Ymgynghoriadau ar effeithiau trawsffiniol prosiect	29
Caniatâd - Egluro Penderfyniadau a Monitro effeithiau amgylcheddol sylweddol	29
Adran 2 - Gofynion perthnasol	32
Arbenigwyr cymwys	32
Gwrthdaro buddiannau	32
Cosbau	33
Adran 3 - Newidiadau eraill yn y rheoliadau presennol	33
Rheoliadau Amaethyddiaeth	33
Rheoliadau Gwaith Morol	34
Y Gymraeg	36
Asesu'r Effaith	36
Cydraddoldebau	37
Rhan 4: Beth sy'n digwydd?	38

Nodyn – Gadael yr Undeb Ewropeaidd: Cynhaliwyd refferendwm ar aelodaeth o'r UE ar 23 Mehefin, a phleidleisiodd mwyafrif y DU dros adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r DU yn parhau i fod yn aelod llawn o'r Undeb Ewropeaidd hyd nes bod y trafodaethau ar adael wedi'u cwblhau, ac mae'r hawliau a'r rhwymedigaethau sy'n deillio o aelodaeth o'r UE ar waith o hyd. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd y Llywodraeth yn parhau i drafod, gweithredu a chymhwyso deddfwriaeth yr UE. Bydd canlyniadau'r trafodaethau hyn yn pennu pa drefniadau sy'n berthnasol mewn perthynas â deddfwriaeth y DU yn y dyfodol, unwaith y bydd y DU wedi ymadael.

Tabl cryno

Pwnc yr ymgynghoriad hwn:	<p>1. Y dull arfaethedig o weithredu Cyfarwyddeb Ewropeaidd 2014/52/EU, sy'n diwygio Cyfarwyddeb 2011/92/EU, ar asesu effeithiau rhai prosiectau cyhoeddus a phreifat ar yr amgylchedd;</p> <p>2. Newidiadau eraill i rai o'r rheoliadau a restrir isod.</p>
Cwmpas yr ymgynghoriad hwn	<p>Mae'r ymgynghoriad yn gofyn am safbwyntiau ar newidiadau i'r rheoliadau canlynol sy'n gweithredu gofynion Cyfarwyddeb Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Cyfarwyddeb 2011/92/EU):</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Coedwigaeth) (Cymru a Lloegr) 1999, fel y'u diwygiwyd • Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Lloegr) (Rhif 2) 2006, fel y'u diwygiwyd • Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2003, fel y'u diwygiwyd • Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Gwaith Gwella Draenio Tir) 1999, fel y'u diwygiwyd • Rheoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007, fel y'u diwygiwyd <p>Hefyd, mae'r ymgynghoriad yn gofyn am safbwyntiau ar gynigion i ddirymu Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Ffermio Pysgod mewn Dyfroedd Morol) 1999 a'u cynnwys o dan Reoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007, fel y'u diwygiwyd.</p>
Cwmpas daearyddol:	<p>Mae'r cynigion hyn yn berthnasol i:</p> <ol style="list-style-type: none"> a) Coedwigaeth – Cymru a Lloegr b) Amaethyddiaeth – Lloegr yn unig c) Adnoddau dŵr – Cymru a Lloegr d) Draenio tir – Cymru a Lloegr e) Gwaith morol - Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban - ar y môr (y tu hwnt i 12 milltir forwrol). Mae Llywodraeth yr Alban eisoes wedi cynnal ymgynghoriad ar wahân ar gynigion ar gyfer rheoliadau sy'n berthnasol i ardal glannau'r Alban (0-12 milltir forwrol) f) Ffermio pysgod asgellog – Cymru a Lloegr <p>ac eithrio i'r graddau y maent yn berthnasol i brosiectau sy'n gwasanaethu amddiffyn gwladol fel eu hunig ddiben, pan fyddant yn berthnasol i'r DU gyfan.</p>
Asesu'r Effaith:	<p>Nod newidiadau Cyfarwyddeb 2014 yw lleihau'r baich ar ymgeiswyr ac awdurdodau cyfrifol drwy leihau nifer yr achosion sy'n mynd drwy'r broses AEA. Bydd y manteision i'w gweld yn</p>

	<p>bennaf yn y datblygiadau mawr sydd angen adroddiad ar asesu effeithiau amgylcheddol fel arfer.</p> <p>Mae economegwyr Defra wedi cwblhau asesiad cychwynnol o gost y newidiadau arfaethedig i fusnesau. Mae'r asesiad hwn wedi dangos bod lefel y gost yn is o lawer ym mhob un o gyfundrefnau cydsynio Defra sy'n cael eu cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn na'r terfyn £1 miliwn sydd ei angen i sbarduno'r angen am Asesiad o'r Effaith. Rydym yn croesawu'r safbwyntiau a'r dystiolaeth o gostau uniongyrchol i fusnesau sy'n deillio o'r newid arfaethedig i reoliadau AEA Defra. Defnyddir y safbwyntiau a'r dystiolaeth hon i gwblhau asesiad arall o'r costau uniongyrchol i fusnesau ar ôl yr ymgynghoriad hwn.</p> <p>Mesur Darpariaeth Reoleiddiol Anghymwys yr Undeb Ewropeaidd yw hwn o dan y Fframwaith Rheoleiddio Gwell. Mae asesiad brysbennu mewnol wedi cadarnhau bod y mesurau yn gymwys ar gyfer y Llwybr Carlam. O ganlyniad, nid yw Asesiadau o Effaith wedi'u paratoi.</p>
I:	Ymgynghoriad cyhoeddus yw hwn ac mae croeso i unrhyw un sydd â diddordeb yn y cynigion ymateb.
Y corff sy'n gyfrifol am yr ymgynghoriad:	Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Llywodraeth yr Alban, ac Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon.
Cyfnod:	Mae'r ymgynghoriad yn cychwyn: 14 12 2016 Mae'r ymgynghoriad yn dod i ben: 31 01 2017
Ymholiadau:	Yn ystod yr ymgynghoriad, os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu os ydych chi am dderbyn copi caled o'r ddogfen, dylech chi e-bostio: EIA.consultation@defra.gsi.gov.uk , ffonio 03459 33 55 77, neu ysgrifennu i: Defra, EIA Consultation, Area 1E, Nobel House, 17 Smith Square, Llundain SW1P 3JR. I gael rhagor o wybodaeth ewch i: www.gov.uk
Sut i ymateb:	<p>Mae'n rhaid i chi anfon eich ymateb erbyn 31 01 2017.</p> <p>Byddai'n well gennym dderbyn ymatebion ar-lein drwy: https://consult.defra.gov.uk/housing-and-planning/environmental-impact-assessment-eia-changes</p> <p>Gan mai ymgynghoriad ar y cyd yw hwn, bydd y timau polisi yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn gallu gweld yr ymatebion a gyflwynir.</p> <p>Os oes angen, gellir cyflwyno ymatebion ysgrifenedig drwy:</p> <p>a) e-bost: EIA.consultation@defra.gsi.gov.uk (gan gynnwys e-byst o bob cwr o'r DU); neu'r</p> <p>b) post:</p> <p>i. Lloegr: EIA Consultation, Defra, Land Use Housing and</p>

	<p>Planning Team, Area 1E, Nobel House, 17 Smith Square, London SW1P 3JR;</p> <p>ii. Cymru: Tîm Polisi Coedwigaeth Llywodraeth Cymru, Colofn H09 Llawr Cyntaf Craidd y Dwyrain, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ</p> <p>iii. Yr Alban: Sarah Smith, Scottish Governemnt, Marine Planning & Strategy, Area 1A South, Victoria Quay, Edinburgh, EH6 6QQ</p> <p>iv. Gogledd Iwerddon: DAERA Marine Strategy and Licensing Team, Klondyke Building, Gasworks Business Park, Belfast, BT7 2JA</p> <p>Os ydych chi'n ymateb drwy e-bost neu drwy'r post, cofiwch nodi a ydych chi'n ateb fel unigolyn neu'n cyflwyno ymateb swyddogol ar ran sefydliad, <u>gan gynnwys</u>:</p> <p>a) enw'r wlad mae'ch ymateb yn berthnasol iddi (Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon);</p> <p>b) eich enw;</p> <p>c) eich swydd (os yn berthnasol);</p> <p>d) enw'ch sefydliad (os yn berthnasol);</p> <p>e) cyfeiriad (gan gynnwys cod post);</p> <p>f) cyfeiriad e-bost;</p> <p>g) rhif ffôn cyswllt;</p> <p>h) rhif/rhifau'r cwestiwn/cwestiynau rydych chi wedi'u hateb;</p> <p>i) pa reoliadau (coedwigaeth, amaethyddiaeth, draenio tir, adnoddau dŵr neu waith morol) mae'ch sylwadau yn ymwneud â nhw.</p>
Ar ôl yr ymgynghoriad:	<p>Ar ddiwedd cyfnod yr ymgynghoriad byddwn yn crynhoi'r ymatebion ac yn rhoi'r crynodeb ar wefan: www.gov.uk/defra</p> <p>1. Bydd copïau o'r ymatebion ar gael i'r cyhoedd ar gais. Os nad ydych chi am i'ch ymateb – gan gynnwys eich enw, eich manylion cyswllt ac unrhyw wybodaeth bersonol arall – fod ar gael i'r cyhoedd, dylech chi nodi hynny'n glir ar ffurf ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb i'r ymgynghoriad. Os yw'ch cyfrifiadur yn cynnwys ymwadiad cyfrinachedd yn awtomatig, <u>ni</u> fydd hwn yn cael ei ystyried yn gais am gyfrinachedd.</p>
Cydymffurfio â'r ymgynghoriad:	<p>Mae'r ymgynghoriad hwn yn cydymffurfio ag Egwyddorion Cydymffurfio'r Llywodraeth, sydd ar gael yn www.cabinetoffice.gov.uk/resource-library/consultation-principles-guidance</p>

Rhan 1: Egluro'r ymgynghoriad – natur y gwaith

Cyflwyniad

1.1 Mae Cyfarwyddeb yr UE 2011/92/EU yn ymwneud ag asesu effeithiau rhai prosiectau a phreifat ar yr amgylchedd (y Gyfarwyddeb AEA) fel rhan o gyfraith Ewropeaidd, ac mae wedi'i chynnwys mewn deddfwriaeth genedlaethol drwy nifer o reoliadau gweithredu. Mae'r Gyfarwyddeb AEA wedi'i diwygio gan Gyfarwyddeb yr UE 2014/52/EU (Cyfarwyddeb 2014) ac mae angen ymgorffori'r diwygiadau hyn mewn deddfwriaeth genedlaethol erbyn 16 Mai 2017.

1.2 Proses yw asesu effeithiau amgylcheddol (AEA). Ei nod yw gwarchod yr amgylchedd a helpu i gynnwys ystyriaethau amgylcheddol wrth baratoi prosiectau er mwyn lleihau eu heffaith ar yr amgylchedd. Mae'n ceisio sicrhau bod cynigion ar gyfer datblygu (cyfeirir at y rhain fel 'prosiectau' yn y Gyfarwyddeb) sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd, er enghraifft oherwydd eu natur, maint neu leoliad, yn destun gofyniad am ganiatâd datblygu ac asesiad o'r effeithiau cyn i'r datblygiad gael caniatâd i fynd rhagddo.

1.3 Mae Cyfarwyddeb yr UE 2014/52/EU yn ymwneud ag asesu effeithiau rhai prosiectau cyhoeddus a phreifat ar yr amgylchedd (Cyfarwyddeb 2014) wedi diwygio'r Gyfarwyddeb AEA gan symleiddio'r rheolau ar gyfer asesu effeithiau posibl prosiectau ar yr amgylchedd yn unol â'r nod o geisio gwella'r gwaith rheoleiddio a lleihau beichiau gweinyddol diangen. Hefyd, mae'n gwella lefel diogelu'r amgylchedd, gan geisio sicrhau bod penderfyniadau busnes yn ymwneud â buddsoddiadau cyhoeddus a phreifat yn fwy cadarn, cyson a chynaliadwy yn yr hirdymor.

1.4 Mae'r Gyfarwyddeb AEA, fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb 2014, ar gael drwy'r dolenni isod mewn fformat HTML:

<http://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/HTML/?uri=CELEX:32011L0092&from=EN>

neu fformat pdf:

<http://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/PDF/?uri=CELEX:32011L0092&from=EN>

Byrfoddau

1.5 Defnyddir y byrfoddau canlynol yn yr ymgynghoriad hwn:

Cyfarwyddeb 2014	Cyfarwyddeb yr UE 2014/52/EU, sy'n diwygio Cyfarwyddeb 2011/92/EU
Rheoliadau Amaethyddiaeth	Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Lloegr) (Rhif 2) 2006 (SI 2006/2522)
Arbenigwyr cymwys	Dyma'r diffiniad newydd (Cyfarwyddeb 2014): personau sydd, yn rhinwedd eu cymwysterau neu brofiad, yn meddu ar arbenigedd digonol i sicrhau cyflawnrwydd ac ansawdd y datganiad
DAERA	Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon
DCLG	Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol
Defra	Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
EEA	Ardal Economaidd Ewropeaidd
AEA	Asesu Effeithiau Amgylcheddol
Cyfarwyddeb AEA	Cyfarwyddeb yr UE 2011/92/EU yn ymwneud ag asesu effeithiau rhai prosiectau cyhoeddus a phreifat ar yr amgylchedd
Rheoliadau Ffermio Pysgod	Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Ffermio Pysgod mewn Dyfroedd Morol) 1999 (OS 1999/367)
FCE	Comisiwn Coedwigaeth Lloegr
Rheoliadau Coedwigaeth	Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Coedwigaeth) (Cymru a Lloegr) 1999 (OS 1999/2228) fel y'u diwygiwyd
Rheoliadau Draenio Tir	Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Gwaith Gwella Draenio Tir) 1999 (OS 1999/1783) fel y'u diwygiwyd
Rheoliadau Gwaith Morol	Rheoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007 (OS 2007/1518) fel y'u diwygiwyd
NI	Gogledd Iwerddon
CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru
Rheoliadau Adnoddau Dŵr	Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 2003 (OS 2003/164) fel y'u diwygiwyd

Beth yw diben yr ymgynghoriad hwn?

1.6 Diben yr ymgynghoriad hwn yw gofyn am safbwyntiau ar newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth sydd eu hangen i weithredu diwygiadau a gyflwynwyd gan Gyfarwyddeb 2014.

1.7 Yn gyffredinol, ein bwriad yw lleihau unrhyw faich rheoleiddio ychwanegol a sicrhau bod ein hamgylchedd yn parhau i gael ei ddiogelu'n dda. Mewn llawer o achosion, mae Cyfarwyddeb 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau roi camau gweithredu penodol ar waith. Yn yr achosion hyn, rydym wedi nodi'r newidiadau a fydd yn cael eu rhoi ar waith ond nid ydym yn gofyn am safbwyntiau ar eu gweithredu.

1.8 Rydym yn ystyried gwneud rhai newidiadau e.e. gwella'r rhan honno o'r weithdrefn AEA drwy ymgynghori â'r cyhoedd. Mae gwella gweithdrefn cyfranogiad y cyhoedd yn gysylltiedig â Rheoliadau Gwaith Morol, ac rydym yn chwilio am safbwyntiau ar sut i wella'r darpariaethau presennol.

1.9 Mewn rhai meysydd, mae Cyfarwyddeb 2014 yn gadael i Aelod-wladwriaethau benderfynu sut i wneud y newidiadau gofynnol. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am safbwyntiau ar y newidiadau arfaethedig yn y meysydd penodol canlynol: coedwigaeth; amaethyddiaeth; adnoddau dŵr; draenio tir; gwaith morol a ffermio pysgod mewn dyfroedd morol.

1.10 Rydym yn croesawu sylwadau ar sut rydym yn cynnig gweithredu'r newidiadau drwy reoliadau.

Pwy fydd â diddordeb mewn ymateb?

1.11 Rydym yn croesawu safbwyntiau a thystiolaeth gan bawb sydd â diddordeb. Rydym yn credu y bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb penodol i'r canlynol: awdurdodau lleol; cyrff amgylcheddol; perchnogion a rheolwyr tir; datblygwyr; ffermwyr; coedwigwyr; asiantau tir a choedwigaeth; byrddau draenio mewnol; awdurdodau lleol a defnyddwyr yr ardal forol.

Rhan 2: Cefndir Cyfarwyddeb 2014/52/EU

Hanes

2.1 Daeth y Gyfarwyddeb AEA i rym am y tro cyntaf ym 1985. Mae wedi'i diwygio sawl gwaith ers hynny, gan gynnwys ym mis Hydref 2012 pan gafodd y Gyfarwyddeb a'i diwygiadau eu dwyn ynghyd mewn un ddogfen – y Gyfarwyddeb AEA. Cyflwynwyd rhagor o ddiwygiadau yn 2014 gan Gyfarwyddeb 2014. Y newidiadau hyn sydd angen addasiadau i'n rheoliadau gweithredu.

2.2 Amcan cyffredinol y Gyfarwyddeb AEA yw sicrhau bod prosiectau sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd oherwydd, ymysg pethau eraill, eu natur, maint neu leoliad yn gorfod derbyn caniatâd o dan y rheoliadau AEA priodol. Ni ellir rhoi caniatâd heb asesu effaith bosibl y prosiect ar yr amgylchedd.

2.3 Diwygiwyd y Gyfarwyddeb AEA gan Gyfarwyddeb 2014, ond nid yw'r amcan wedi newid: *to provide a high level of protection of the environment and help integration of environmental considerations into the preparation of projects with a view to reducing their impact on the environment.*

2.4 Mae diwygiadau 2014 yn canolbwyntio'n bennaf ar ddadreoleiddio – symleiddio ac egluro gofynion drwy ganolbwyntio ar ffactorau amgylcheddol sy'n cael eu heffeithio'n sylweddol gan ddatblygiad, yn hytrach nag ar unrhyw effaith bosibl.

Gweithredu

2.5 Mae'r Gyfarwyddeb AEA wedi'i gweithredu drwy nifer o reoliadau a weinyddwyd gan adrannau llywodraeth gwahanol ac, mewn rhai achosion, gan weinyddiaethau gwahanol y DU ar gyfer Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG) sy'n bennaf gyfrifol am arwain y Gyfarwyddeb AEA. Mae DCLG yn cynnal ymgynghoriad ar ei deddfwriaeth yn ymwneud ag asesu effeithiau amgylcheddol [DCLG consultation](#).

2.6 Yn Lloegr, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) sy'n gyfrifol am reoliadau yn ymwneud â choedwigaeth, amaethyddiaeth, adnoddau dŵr, draenio tir, gwaith morol a ffermio pysgod mewn prosiectau dyfroedd morol. Mae'r rheoliadau yn berthnasol i Gymru a Lloegr, ac eithrio'r rheoliadau amaethyddiaeth sy'n berthnasol i Loegr yn unig a'r rheoliadau morol sy'n berthnasol ledled y DU (ac eithrio ardal y glannau yn yr Alban) (0-12 milltir forol). Oherwydd hyn, mae'r ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar y cyd gan Defra, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban ac Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon. Hefyd, mae'n ofynnol gwneud hyn oherwydd y darpariaethau eithrio amddiffyn arfaethedig sy'n berthnasol i holl wledydd y DU.

2.7 Yn yr ymgynghoriad hwn, mae 'ymgeiswyr' yn cyfeirio at bobl, cwmnïau neu sefydliadau sy'n gwneud cais am ganiatâd ar gyfer prosiectau sydd angen cael eu hasesu o dan y broses AEA, er enghraifft, ffermwyr, rheolwyr tir/coedwigaeth, perchnogion tir, asiantau tir/coedwigaeth, Byrddau Draenio Mewnol, awdurdodau

lleol a defnyddwyr yr amgylchedd morol sy'n gwneud gwaith morol, gan gynnwys gwaith adeiladu, gweithgareddau cloddio a dyfeisiau ynni adnewyddadwy.

2.8 Mae'r tabl isod yn nodi'r rheoliadau a ystyriwyd yn yr ymgynghoriad hwn a'r ardal ddaearyddol y maent yn berthnasol iddi.

Rheoliad	Gwybodaeth am y Rheoliad	Ardal ddaearyddol
a) Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Coedwigaeth) (Cymru a Lloegr) 1999 (OS 1999/2228) fel y'u diwygiwyd (Rheoliadau Coedwigaeth)	Mae'r Rheoliadau AEA hyn yn berthnasol i goedwigo (creu coetiroedd), datgoedwigo (newid defnydd coetir, ond nid at ddibenion datblygu), ffyrdd coedwigoedd a chwareli coedwigoedd (lle mae deunyddiau'n cael eu hechdynnu i greu ffyrdd coedwigoedd). Mae'r Rheoliadau hyn yn berthnasol i brosiectau sy'n fwy na'r trothwyon maint ac sy'n amrywio ar sail natur y prosiect a sensitifwydd y safleoedd. Maent yn sicrhau bod prosiectau coedwigaeth yn osgoi neu'n lleihau difrod amgylcheddol posibl. Os oes angen caniatâd AEA, mae'r Rheoliadau hefyd yn sicrhau bod rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys y cyhoedd, yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau.	Cymru a Lloegr
b) Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Lloegr) (Rhif 2) 2006 (OS 2006/2522) (Rheoliadau Amaethyddiaeth)	Mae'r Rheoliadau'n berthnasol i ddau fath o brosiect: a) prosiectau sy'n cynyddu cynhyrchiant tir heb ei drin neu ardaloedd lled-naturiol ar gyfer amaethyddiaeth (e.e. lefelau uwch o wrtaith, hau hadau neu drin y pridd yn ffisegol); b) prosiectau sy'n ailstrwythuro daliadau tir gwledig yn ffisegol. Nod y rheoliadau yw diogelu tir heb ei drin ac ardaloedd lled-naturiol rhag cael eu difrodi gan waith amaethyddol. Hefyd, maent yn sicrhau nad yw ailstrwythuro daliadau tir gwledig yn cael unrhyw effaith amgylcheddol negyddol bosibl.	Lloegr
c) Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 2003 (OS 2003/164) fel y'u diwygiwyd (Rheoliadau Adnoddau Dŵr)	Mae'r Rheoliadau Adnoddau Dŵr yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal AEA ar gyfer prosiectau rheoli dŵr ym maes amaethyddiaeth (gan gynnwys prosiectau dyfrhau) a fyddai'n debygol o gael effeithiau arwyddocaol ar yr amgylchedd oherwydd eu natur, maint neu leoliad, ac eithrio os yw'r prosiect yn destun AEA o dan ddeddfwriaeth arall. Nid yw'r Rheoliadau Adnoddau Dŵr yn berthnasol os yw'r prosiect yn destun unrhyw ddeddfwriaeth AEA arall. Mae prosiectau sy'n ymwneud ag echdynnu dŵr ond yn cael eu cynnwys os oes mwy nag 20 metr ciwbig yn cael ei echdynnu mewn 24 awr.	Cymru a Lloegr
d) Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Gwaith Gwella Draenio Tir) 1999 (OS 1999/1783)	O dan y Rheoliadau hyn, mae'n rhaid i gyrrff draenio baratoi AEA cyn gwneud unrhyw waith gwella sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd. Mae cyrrff draenio yn cael eu diffinio fel Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Byrddau Draenio Mewnol ac Awdurdodau Lleol. Mae'r Rheoliadau yn ymwneud â draenio tir ac yn cynnwys	Cymru a Lloegr

fel y'u diwygiwyd (Rheoliadau Draenio Tir)	amddiffynfeydd eraill yn erbyn dŵr h.y. amddiffyn rhag llifogydd. Mae gwaith gwella yn cynnwys prosiectau i ddyfnhau, lledu, sythu neu wella cyrsiau dŵr; neu waith i gael gwared ar neu newid argaeau melinau, coredau neu rwystrau eraill. Mae prosiectau a ganiateir o dan Ran 13 o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 2015 wedi'u cynnwys hefyd.	
e) Rheoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007 (OS 2007/1518) fel y'u diwygiwyd (Rheoliadau Gwaith Morol)	<p>Mae'r Rheoliadau Gwaith Morol yn pennu'r amgylchiadau lle y bydd angen AEA o bosibl ar gyfer mathau penodol o waith morol (cyfeirir at hyn fel 'gweithgaredd a reoleiddir'). Mae'r gwaith morol sy'n cael ei reoli gan y Rheoliadau yn cael ei nodi yn y diffiniad o gymeradwyaeth reoleiddiol yn rheoliad 2(1). Yn gyffredinol, mae'n cynnwys cais am drwydded forol a/neu gymeradwyo caniatâd ar gyfer mathau penodol o waith harbwr. Mae yna rywfaint o orgyffwrdd â'r gofyniad AEA o dan Ddeddf Harbyrau 1964 lle mae angen AEA o dan Reoliadau Gwaith Harbwr (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 1999, fel y'u diwygiwyd. Mae'r Adran Drafnidiaeth yn gyfrifol am y Rheoliadau hyn ac mae'n cynnal ymgynghoriad ar wahân ar newidiadau arfaethedig i Atodlen 3 o Ddeddf Harbyrau 1964, sef adran y Ddeddf sy'n nodi'r drefn ar gyfer gwneud Gorchmynion Diwygio a Grymuso Harbyrau Department for Transport consultation</p> <p>Yn amodol ar rai esemptiadau (e.e. prosiectau amddiffyn), mae angen AEA ar gyfer y Rheoliadau Gwaith Morol os yw'r gweithgaredd a reoleiddir yn cael ei roi ar waith yn ystod prosiect Atodiad I. Bydd angen AEA ar gyfer gweithgaredd a reoleiddir yn ystod prosiect Atodiad II os yw'r awdurdod priodol yn penderfynu bod y prosiect yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd oherwydd ei faint, natur neu leoliad, yn unol â'r meini prawf yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau. Hefyd, gall yr ymgeisydd a'r awdurdod priodol gytuno y dylai'r gweithgaredd a reoleiddir fod yn destun AEA.</p> <p>Os oes angen AEA o dan y Rheoliadau Gwaith Morol, ni ellir rhoi cymeradwyaeth reoleiddiol (e.e. trwydded forol) nes bod AEA wedi'i gwblhau a bod caniatâd AEA wedi'i roi. Ni all yr ymgeisydd ddechrau'r gweithgaredd a reoleiddir nes bod caniatâd AEA wedi'i roi (rheoliad 4). Mae'r awdurdod priodol (yn unol â diffiniad rheoliad 2(1)) yn gyfrifol am roi caniatâd AEA. Os yw caniatâd AEA yn cael ei roi, gall y cais am gymeradwyaeth reoleiddio fynd rhagddo i gael ei benderfynu, ond mae'n rhaid i'r person sy'n gwneud y penderfyniad (y rheoleiddiwr) ystyried y caniatâd AEA (rheoliad 24) ac, yn benodol, unrhyw ystyriaethau a oedd yn sylfaen i'r cyfryw ganiatâd (rheoliad 23(2) (b)) ac unrhyw fesurau lliniaru a monitro a nodwyd yn y cadarnhad ysgrifenedig sy'n ategu'r caniatâd (rheoliad 23(2) (c)). Os gwrthodir caniatâd</p>	Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban

	AEA, ni all y rheoleiddiwr roi cymeradwyaeth reoleiddiol, a rhaid iddo drin y cais am gymeradwyaeth reoleiddiol fel cais sydd wedi'i dynnu yn ôl (rheoliad 24(2)).	
f) Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Ffermio Pysgod mewn Dyfroedd Morol) 1999 (OS 1999/367) (Rheoliadau Ffermio Pysgod)	Mae'r Rheoliadau Ffermio Pysgod mewn Dyfroedd Morol yn ei gwneud yn ofynnol cynnal AEA ar gyfer unrhyw ddatblygiad ffermio pysgod dwys arfaethedig. Mae'r amodau yn berthnasol i ffermydd pysgod asgellog (nid pysgod cregyn) sydd i'w lleoli mewn ardaloedd sensitif, i ffermydd sy'n cadw dros fwy na 100 tunnell o bysgod, neu sy'n cwmpasu mwy nag 1 hectar o arwynebedd y dyfroedd morol (gan gynnwys unrhyw strwythurau neu gloddfeydd arfaethedig). Mae'r rheoliadau yn berthnasol i geisiadau i Ystâd y Goron yn unig, fel y tiffeddiannwr, ar gyfer caniatâd am ffermydd pysgod yng Nghymru a Lloegr.	Cymru a Lloegr

Y broses Asesu Effeithiau Amgylcheddol

2.9 Amcan y broses asesu effeithiau amgylcheddol (AEA) yw sicrhau lefel uchel o warchodaeth ar gyfer yr amgylchedd drwy gynnwys ystyriaethau amgylcheddol wrth baratoi prosiectau, gyda'r nod o leihau eu heffaith ar yr amgylchedd. Mae'n ceisio sicrhau bod cynigion ar gyfer prosiectau sy'n debygol o gael effeithiau arwyddocaol ar yr amgylchedd, er enghraifft oherwydd eu natur, maint neu leoliad, yn destun gofyniad i asesu'r effeithiau cyn bod y prosiect yn gallu mynd rhagddo.

2.10 Mae rhai mathau o brosiectau yn cael eu hystyried yn brosiectau a fydd yn cael effeithiau arwyddocaol ar yr amgylchedd bob amser, a bydd angen AEA ar gyfer pob un ohonynt. Rhestrir y mathau o brosiectau perthnasol yn Atodiad I i'r Gyfarwyddeb AEA. Maent yn cynnwys gorsafoedd ynni niwclear, purfeydd olew a rheilffyrdd pellter hir.


2.11 Nodir y bydd mathau eraill o brosiectau ond yn cael effeithiau arwyddocaol mewn rhai achosion, gan ddibynnu ar eu natur, maint a lleoliad. Rhestrir y mathau o brosiectau perthnasol yn Atodiad II i'r Gyfarwyddeb AEA. Maent yn cynnwys prosiectau datblygu trefol a phrosiectau ynni llai o ran maint. Ni fydd angen AEA ar gyfer prosiectau a restrir yn Atodiad II oni chredir eu bod yn debygol o gael effeithiau arwyddocaol ar yr amgylchedd.

2.12 Enw'r broses o benderfynu a yw prosiect a restrir yn Atodiad II yn debygol o gael effeithiau arwyddocaol ar yr amgylchedd yw 'sgrinio'. Gall Aelod-wladwriaethau benderfynu a ddylai prosiect a restrir yn Atodiad II fod yn destun AEA drwy archwilio achosion unigol a/neu bennu trothwyon neu feini prawf.

2.13 Os oes angen cwblhau asesiad, mae'n rhaid i'r ymgeisydd ddarparu gwybodaeth benodedig ar gyfer yr awdurdod cymwys perthnasol. Mae'r wybodaeth yn galluogi'r awdurdod cymwys i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynglŷn ag a ddylai'r prosiect gael caniatâd AEA i fynd rhagddo. Hefyd, mae'n ei gwneud yn

ofynnol ymgynghori â chyrrff cyhoeddus a chyrrff eraill a rhoi cyfle iddynt gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau.

Dyma brif gamau'r broses:



*Mae'r Rheoliadau Gwaith Morol yn darparu ar gyfer proses dau gam ychydig yn wahanol. Mae'r penderfyniad ynglŷn ag a ddylid caniatáu'r gweithgaredd a reoleiddir ar sail ei effeithiau ar yr amgylchedd (caniatâd AEA) yn benderfyniad ar wahân i'r penderfyniad cymeradwyaeth reoleiddiol (e.e. penderfyniad trwydded forol). Os yw caniatâd AEA yn cael ei roi gan yr awdurdod priodol, gall y rheoleiddiwr fynd ati i wneud penderfyniad ynglŷn â'r cais am gymeradwyaeth reoleiddiol (e.e. y cais am drwydded forol). Bydd y gymeradwyaeth reoleiddiol yn cynnwys unrhyw fesurau lliniaru a mesurau ar ôl y broses fonitro, gan ystyried y penderfyniad ar roi caniatâd AEA wrth wneud y

penderyniad rheoleiddiol. Os gwrthodir caniatâd AEA, mae'n rhaid i'r rheoleiddiwr nodi bod y gymeradwyaeth reoleiddiol wedi'i thynnu yn ôl.

Rhan 3: Cynigion ar gyfer trosi

3.1 Wrth drosi cyfraith yr UE, mae agenda Rheoleiddio Gwell y Llywodraeth yn nodi bod angen i'r Llywodraeth sicrhau nad yw'r DU yn rhagori ar ofynion sylfaenol y mesur sy'n cael ei drosi, ac y bydd yn defnyddio copi ar gyfer trosi os yw ar gael, ac eithrio mewn achosion lle byddai gwneud hynny'n cael effaith niweidiol ar fuddiannau'r DU. Rydym wedi ceisio dilyn yr egwyddorion hyn wrth drosi'r diwygiadau a wnaed gan Gyfarwyddeb 2014/52/EU, ac er mwyn lleihau baich rheoleidiol ychwanegol wrth warchod yr amgylchedd.

3.2 Wrth drosi'r diwygiadau i'r Gyfarwyddeb, rydym yn credu y dylid defnyddio, i'r graddau posibl, yr un dull o asesu effeithiau amgylcheddol, gan fod y dull hwn yn cael ei ddeall yn dda gan ddatblygwyr, awdurdodau cynllunio lleol ac eraill sy'n ymwneud â'r gweithdrefnau. Felly, y cynigion ar gyfer ymgynghori a nodwyd gennym yw'r newidiadau sylfaenol sydd angen eu gwneud i'r rheoliadau presennol er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb ddiwygiedig. Hefyd, bydd hyn yn lleihau costau cyfarwyddo ac ansicrwydd busnesau.

Disgrifiad cyffredinol o'r newidiadau cyffredin

Coedwigaeth

3.3 Y prif newid i'r Rheoliadau Coedwigaeth o dan y Gyfarwyddeb ddiwygiedig yw'r angen i ymgeiswyr ddarparu mwy o wybodaeth ymlaen llaw am effeithiau posibl eu cynnig ar yr amgylchedd. Bydd hyn yn llywio penderfyniadau rheoleiddwyr ynglŷn ag a oes angen caniatâd AEA. Er y gall hyn gynyddu'r costau ar gyfer rhai ymgeiswyr, oherwydd y wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen a'r angen posibl am gyngor arbenigol, mae'n ceisio rhoi cyfle i ymgeiswyr fynd i'r afael ag effeithiau arwyddocaol posibl eu cynllun ymlaen llaw er mwyn osgoi'r costau a'r amser ychwanegol sy'n gysylltiedig â thywys prosiect drwy'r broses AEA. Hefyd, mae rhoi'r newidiadau cyffredin ar waith yn gyfle i adolygu'r trothwyon sgrinio ar gyfer prosiectau coedwigo. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am safbwyntiau ar gynigion i addasu'r trothwyon ar gyfer prosiectau o'r fath.

Amaethyddiaeth ac Adnoddau Dŵr

3.4 Y prif newid sy'n cael ei gynnig i'r Rheoliadau Amaethyddiaeth a'r Rheoliadau Adnoddau Dŵr yw'r angen i ddarparu gwybodaeth ymlaen llaw (yn ystod y cam sgrinio) yn hytrach na'i chyflwyno ar ddiwedd y broses AEA (y cam caniatâd) fel ar hyn o bryd. Gall hyn olygu bod ymgeiswyr yn defnyddio mwy o asiantau/arbenigwyr ar ddechrau'r broses er mwyn ymateb i'r angen i ddarparu mwy o wybodaeth yn ystod y cam hwnnw. Er y bydd hyn yn cynyddu'r costau yn ystod camau cyntaf y broses, gan mai ychydig iawn o geisiadau sy'n cael eu caniatáu ar hyn o bryd, dylai olygu bod modd gwneud y penderfyniad sgrinio yn fwy effeithiol gan y bydd gwybodaeth fanylach ar gael yn ystod y cam cynnar hwn. Gan nad oes unrhyw asesiadau wedi'u cwblhau eto o dan y Rheoliadau Adnoddau Dŵr, bydd unrhyw gostau perthnasol sy'n cael eu hysgwyddo gan ymgeiswyr yn gostau tro cyntaf.

Draenio Tir

3.5 Y prif newidiadau sy'n cael eu cynnig i'r Rheoliadau Draenio Tir yw'r angen i wneud penderfyniadau ynglŷn â chaniatáu gwaith ymhen 90 diwrnod; hefyd, bydd angen amserlen ofynnol newydd ar gyfer ymgynghoriadau cyhoeddus ar yr adroddiad ar asesu effeithiau amgylcheddol, sef dim llai na 30 diwrnod ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad.

Gwaith Morol

3.6 Er mwyn trosi gofynion y Gyfarwyddeb AEA fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb 2014, y prif newidiadau sy'n cael eu cynnig i'r Rheoliadau Gwaith Morol yw:

- a) cynnwys diffiniad o "asesu effeithiau amgylcheddol" yn y Rheoliadau Gwaith Morol a gwneud diwygiadau i'r Rheoliadau i adlewyrchu'r diffiniad hwn;
- b) egluro bod eithrio prosiectau at ddibenion amddiffyn gwladol: (i) yn gorfod ymwneud â phrosiectau sydd ag amddiffyn fel eu **hunig** ddiben er mwyn bod yn gymwys i gael eu heithrio; a (ii) ymestyn yr esemptiad i gynnwys prosiectau sy'n ymwneud ag argyfyngau sifil fel eu hunig ddiben;
- c) trosi'r ddarpariaeth sy'n caniatáu i brosiect sy'n cael ei fabwysiadu gan ddeddf benodol o ddeddfwriaeth genedlaethol gael ei eithrio o'r gofynion cyfranogiad cyhoeddus a nodir yn y Gyfarwyddeb AEA ddiwygiedig (os yw amcanion y Gyfarwyddeb wedi'u diwallu). Hefyd, rydym yn rhagweld y bydd angen i'r ddarpariaeth hon fod yn berthnasol i brosiectau a fabwysiadwyd gan ddeddfwriaeth a wnaed gan y Gweinyddiaethau Datganoledig;
- d) cynnwys gofynion Cyfarwyddeb 2014 sy'n nodi bod angen i ddatganiad amgylcheddol prosiect gael ei baratoi gan arbenigwr cymwys sydd ag arbenigedd digonol i sicrhau cyflawnrwydd ac ansawdd y datganiad;
- e) trosi'r gofyniad sy'n nodi bod angen i'r awdurdod priodol feddu ar, neu gael mynediad at, arbenigrwydd digonol i archwilio datganiad amgylcheddol prosiect;
- f) nodi bod rhwymedigaethau presennol – i roi cyhoeddusrwydd i'r cais (neu sicrhau bod yr ymgeisydd yn gwneud hynny) a darparu gwybodaeth benodol am y cais i gyrrff ymgynghori (neu sicrhau bod yr ymgeisydd yn gwneud hynny) – yn amodol ar ofyniad i wneud hynny "cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol";
- g) cadarnhau'r amserlen ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd ar ddatganiad amgylcheddol prosiect – sef 42 diwrnod ar ôl cyhoeddi hysbysiad y cais am y tro cyntaf mewn papur newydd (nid yw'r ddarpariaeth bresennol yn nodi'n glir pryd yn union mae'r cyfnod 42 diwrnod yn cychwyn);
- h) diwygio'r Rheoliadau Gwaith Morol fel nad ydynt yn berthnasol i ardal y glannau yn yr Alban (h.y. hyd at 12 milltir forol) gan y bydd Gweinidogion yr Alban yn cyflwyno eu deddfwriaeth eu hunain ar gyfer yr ardal honno; bydd y Rheoliadau Gwaith Morol yn parhau i fod yn berthnasol i ardal y môr yn yr Alban;
- i) gwneud darpariaeth bod angen i'r awdurdodau perthnasol gydweithio os oes angen asesiad priodol (o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd neu'r Gyfarwyddeb Adar Gwyllt) a bod angen asesu'r effeithiau amgylcheddol. Yn ymarferol, rydym yn credu mai'r un awdurdod fel arfer fydd yr awdurdod priodol o dan y Rheoliad Gwaith Morol a'r awdurdod priodol o dan y drefn Gynefinoedd/Adar Gwyllt, ond mae'n bosibl na fydd hyn yn wir bob amser;
- j) diwygio darpariaeth bresennol o dan y Rheoliadau Gwaith Morol i'w gwneud yn ofynnol i sicrhau bod unrhyw wybodaeth ychwanegol y mae angen i'r ymgeisydd ei

darparu i'r awdurdod priodol yn uniongyrchol berthnasol i'r penderfyniad ar ganiatáu asesu effeithiau amgylcheddol;

k) diwygio'r Rheoliadau Gwaith Morol i'w gwneud yn ofynnol i'r awdurdod priodol ystyried a oes angen cyflwyno unrhyw amodau wrth gadarnhau caniatâd ar ôl asesu'r effeithiau amgylcheddol, a nodi'r cyfryw amodau yn glir wrth gadarnhau caniatâd, gan gynnwys cyfeiriad at amodau lliniaru neu fonitro penodol;

l) ategu darpariaethau presennol yn ymwneud â "dewisiadau sgrinio" (safbwynt ynglŷn ag a oes angen asesu'r effeithiau amgylcheddol ar gyfer gweithgaredd a reoleiddir). Yn benodol, mae'r newidiadau arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod priodol wneud penderfyniad sgrinio ar sail (i) gwybodaeth a ddarparwyd gan yr ymgeisydd; (ii) asesiadau amgylcheddol eraill a (iii) y meini prawf dethol yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau (y cyfryw feini prawf i'w hadolygu i adlewyrchu diwygiadau i'r meini prawf yn Atodiad III o AEA diwygiedig 2011);

m) cynnwys darpariaeth i gyhoeddi datganiad ysgrifenedig o resymau gyda dewis sgrinio. Os yw'r dewis sgrinio yn nodi nad oes angen AEA, dylai'r safbwynt nodi unrhyw nodweddion a mesurau sydd eu hangen i osgoi neu atal unrhyw effeithiau niweidiol arwyddocaol ar yr amgylchedd;

n) diwygio'r Rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod priodol roi gwybod am ddewis sgrinio a datganiad o resymau cyn gynted â phosibl ar ôl i'r ymgeisydd gyflwyno cais sgrinio ac ymhen 90 diwrnod fan bellaf, gyda darpariaeth i ymestyn y cyfnod hwn drwy gytundeb mewn achosion eithriadol;

o) bydd y Rheoliadau Gwaith Morol yn dirymu'r Rheoliadau Ffermio Pysgod; mae angen trwydded forol o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 ar gyfer ffermio pysgod, a byddai'r gweithgaredd hwn yn dod yn weithgaredd a reoleiddir gan y Rheoliadau Gwaith Morol. Byddai hyn yn symleiddio'r trefniadau presennol o dan un system.

Ffermio Pysgod Asgellog mewn Dyfroedd Morol

3.7 Nid oes unrhyw ffermydd pysgod asgellog mewn dyfroedd morol ar arfordir Cymru a Lloegr ar hyn o bryd. Felly, rydym yn cynnig y dylid manteisio ar y cyfle hwn i ddirymu'r rheoliadau hyn. Yn hytrach na bodloni gofynion AEA, byddai unrhyw ddatblygiadau ffermio pysgod arfaethedig yn cael eu rheoli gan y Rheoliadau Gwaith Morol. Bydd DAERA yng Ngogledd Iwerddon yn gwneud diwygiadau i'r Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Ffermio Pysgod mewn Dyfroedd Morol) (Gogledd Iwerddon 2007) sy'n berthnasol i Ogledd Iwerddon.

Y cynigion rydym yn ymgynghori arnynt / diwygiadau i'r rheoliadau

Adran 1 – Darpariaethau Cyffredin

Diffiniadau (Erthygl 1(1)(a) ac 1(3) o Gyfarwyddeb 2014 – diwygiad i Erthygl 1(2)(g) a 3 o'r Gyfarwyddeb AEA)

3.8 Mae Cyfarwyddeb 2014 wedi cyflwyno diffiniad newydd o "asesu effeithiau amgylcheddol", sef proses sy'n cynnwys:

- a) adroddiad yr ymgeisydd ar asesu'r effeithiau amgylcheddol, yn unol ag Erthygl 5(1) a (2);
- b) cynnal ymgynghoriadau yn unol ag Erthygl 6 a, lle bo hynny'n berthnasol, Erthygl 7;
- c) archwiliad gan yr awdurdod cymwys o'r wybodaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad ar asesu'r effeithiau amgylcheddol ac unrhyw wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd, yn ôl yr angen, gan yr ymgeisydd yn unol ag Erthygl 5(3), ac unrhyw wybodaeth berthnasol a dderbyniwyd drwy'r ymgynghoriadau o dan Erthyglau 6 a 7;
- d) casgliad rhesymegol yr awdurdod cymwys ynglŷn ag effeithiau arwyddocaol y prosiect ar yr amgylchedd, gan ystyried canlyniadau'r archwiliad a nodwyd ym mhwynt (iii) a, lle bo hynny'n briodol, ei archwiliad ategol ei hun; a
- e) chynnwys casgliad rhesymegol yr awdurdod yn unrhyw un o'r penderfyniadau y cyfeiriwyd atynt yn Erthygl 8a.

3.9 Mae Erthygl 1(3) o Gyfarwyddeb 2014 wedi newid y materion y dylai'r broses o asesu'r effeithiau amgylcheddol eu nodi, eu disgrifio a'u hasesu yn briodol. Dylid ystyried effeithiau arwyddocaol uniongyrchol ac anuniongyrchol prosiect ym mhob achos unigol. Mae'r rhestr o ffactorau sydd i'w hystyried wedi'i diwygio i'r canlynol:

- a) y boblogaeth ac iechyd dynol;
- b) bioamrywiaeth, gan ganolbwyntio'n benodol ar rywogaethau a chynefinoedd sy'n cael eu gwarchod o dan Gyfarwyddeb 92/43/EEC ac adar gwyllt sy'n cael eu gwarchod o dan Gyfarwyddeb 2009/147/EC;
- c) tir, pridd, dŵr, aer a'r hinsawdd;
- d) asedau perthnasol, treftadaeth ddiwylliannol a'r dirwedd;
- e) y rhyngweithio rhwng y ffactorau y cyfeiriwyd atynt ym mhwyntiau (a) i (d).

3.10 Hefyd, dylai'r AEA gynnwys, lle bo hynny'n berthnasol, effeithiau disgwylidig y ffactorau a restrir uchod, sy'n deillio o ba mor agored yw'r prosiect i beryglon o ddamweiniau mawr a/neu drychinebau sy'n berthnasol i'r prosiect dan sylw.

3.11 Rydym yn cynnig y dylid copïo'r diffiniad newydd hwn a'r newidiadau yn y rheoliadau.

3.12 Fodd bynnag, o safbwynt y Rheoliadau Gwaith Morol, rydym yn cynnig bod modd copïo rhai elfennau o'r diffiniad o'r Gyfarwyddeb ond bod angen rhywfaint o deilwra i sicrhau cysondeb â diffiniadau presennol y Rheoliadau Gwaith Morol. Hefyd, rydym yn rhagweld y bydd angen gwneud rhai diwygiadau canlyniadol i ddarpariaethau eraill yn y Rheoliadau Gwaith Morol, gan gynnwys rheoliad 22 (y penderfyniad i ganiatáu asesu effeithiau amgylcheddol y cais a'r penderfyniad rheoleiddiol), er mwyn sicrhau cysondeb â'r diffiniad newydd o AEA (yn ogystal â gofynion Cyfarwyddeb eraill fel erthygl 8a(1)).

Esemptiadau (Erthygl 1(1)(b) o Gyfarwyddeb 2014 – diwygiad i Erthygl 1(3) o'r Gyfarwyddeb AEA)

3.13 Mae Erthygl 1(3) wedi'i diwygio er mwyn cyfyngu ar yr esemptiad presennol ar gyfer prosiectau amddiffyn, gan nodi na fydd yr esemptiad yn berthnasol oni bai bod prosiect, neu ran o brosiect, yn cynnwys amddiffyn fel ei unig ddiben. Fodd bynnag,

mae'r esemptiad wedi'i ymestyn hefyd i gynnwys prosiectau lle mai ymateb i argyfyngau sifil yw'r unig ddiben.

3.14 Rydym yn cynnig cynnwys hyn ym mhob un o'r rheoliadau.

3.15 Mae'r Rheoliadau Gwaith Morol yn darparu ar gyfer esemptiad ar gyfer prosiect at ddibenion amddiffyn gwladol, ond rydym yn cynnig bod angen diwygio'r esemptiad hwn i gyd-fynd â'r cyfyngiad yn y diwygiad i erthygl 1(3) o'r Gyfarwyddeb AEA fel y bydd ond yn berthnasol i brosiectau sydd ag amddiffyn fel eu hunig ddiben. Hefyd, rydym yn cynnig ymestyn yr esemptiad i argyfyngau sifil.

3.16 Bydd yr esemptiad ar gyfer prosiectau sydd ag amddiffyn fel eu hunig ddiben yn berthnasol ledled y DU gan nad yw'r swyddogaeth hon wedi'i datganoli.

Gweithdrefnau cydgysylltiedig a gweithdrefnau ar y cyd (Erthygl 1(2)(a) o Gyfarwyddeb 2014 – diwygiad i Erthygl 2(3) o'r Gyfarwyddeb AEA)

3.17 Mae Cyfarwyddeb AEA 2014 wedi cyflwyno gofyniad newydd i Erthygl 2(3) o'r Gyfarwyddeb AEA. Os oes angen asesiad o dan y Gyfarwyddeb AEA ac o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd a/neu'r Gyfarwyddeb Adar Gwyllt ar gyfer prosiect, mae Gofyniad 2014 yn nodi bod angen defnyddio 'gweithdrefn gydgysylltiedig' neu 'weithdrefn ar y cyd'. O dan y weithdrefn gydgysylltiedig, mae'n rhaid i awdurdod neu awdurdodau dynodedig gydgysylltu asesiadau ar wahân. O dan y weithdrefn ar y cyd, mae'n rhaid i Aelod-wladwriaethau fynd ati i ddarparu ar gyfer un asesiad o effeithiau prosiect ar yr amgylchedd.

3.18 Rydym o'r farn fod gweithdrefnau cydgysylltiedig yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ddatblygwyr gyflwyno ac amseru'r broses o asesu effeithiau amgylcheddol a chwblhau 'asesiad priodol' o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Credir bod hyn yn adlewyrchu ymarfer presennol yn Lloegr. Fodd bynnag, o dan y weithdrefn ar y cyd, byddai angen ymdrin â'r wybodaeth sy'n llywio'r ddau asesiad mewn un asesiad ac rydym wedi ceisio cymhwyso hyn yn nifer o'r rheoliadau isod.

3.19 Ar gyfer y Rheoliadau Coedwigaeth, rydym yn cynnig cynnwys darpariaeth ar gyfer asesiadau cydgysylltiedig ac asesiadau ar y cyd. Byddai asesiadau ar y cyd yn berthnasol os mai Comisiwn Coedwigaeth Lloegr neu Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r awdurdod cymwys ar gyfer Cyfarwyddebau AEA a Chyfarwyddebau Cynefinoedd a/neu Adar Gwyllt. Bydd asesiadau cydgysylltiedig yn berthnasol pan fydd rheoleiddiwr arall yn cynnal yr asesiad o dan Gyfarwyddebau Cynefinoedd a/neu Adar Gwyllt.

3.20 Ar gyfer y Rheoliadau Amaethyddiaeth, rydym yn cynnig rhoi gweithdrefn ar y cyd ar waith sydd angen un asesiad, gan mai Natural England yw'r unig awdurdod cymwys.

3.21 Nid oes angen newid y Rheoliadau Adnoddau Dŵr. Asiantaeth yr Amgylchedd neu Cyfoeth Naturiol Cymru (fel sy'n briodol) fydd yr awdurdod cymwys ar gyfer y Cyfarwyddebau AEA a Chynefinoedd, a'r sefydliadau hyn a fydd yn cwblhau'r asesiadau.

3.22 Mae'r Rheoliadau Draenio Tir eisoes yn caniatáu i sefydliadau draenio (yr awdurdod cymwys at ddibenion y Cyfarwyddebau AEA, Cynefinoedd ac Adar Gwyllt) fabwysiadu'r weithdrefn gydgysylltiedig neu'r weithdrefn asesu ar y cyd. Nid ydym yn cynnig unrhyw newidiadau eraill i'r rheoliadau, gan ein bod yn awyddus i gadw'r hyblygrwydd hwn.

3.23 Yn y rhan fwyaf o achosion yn ymwneud â'r Rheoliadau Gwaith Morol, rydym yn rhagweld mai'r un awdurdod fydd yr awdurdod priodol o dan y Rheoliadau Gwaith Morol a'r awdurdod cymwys o dan y cyfundrefnau Cynefinoedd ac Adar Gwyllt. Fodd bynnag, er mwyn darparu ar gyfer achosion eraill, rydym yn cynnig bod angen sicrhau bod y Rheoliadau Gwaith Morol yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cydgysylltu pan fydd angen asesiad priodol ac AEA. Nid ydym yn credu y byddai hyn yn arwain at unrhyw newid arwyddocaol i'r gweithdrefnau presennol sydd wedi'u mabwysiadu yn ymarferol.

3.24 Hefyd, mae'r Gyfarwyddeb yn rhoi'r hawl i Aelod-wladwriaethau ddewis defnyddio gweithdrefnau ar y cyd neu weithdrefnau cydgysylltiedig ar gyfer unrhyw asesiadau sydd angen eu cwblhau o dan gyfraith yr UE, gan gynnwys y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, y Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff. Nid yw'r ddarpariaeth yn orfodol ac nid ydym yn bwriadu ei chynnwys yn ein rheoliadau.

Cwestiwn 1. A ydych chi'n cytuno â'r cynigion hyn?

Sgrinio (Erthygl 1(4) o Gyfarwyddeb 2014 – yn diwygio Erthygl 4 o'r Gyfarwyddeb AEA)

3.25 Mae 'sgrinio' yn disgrifio proses lle mae awdurdod cymwys yn penderfynu a yw prosiect arfaethedig yn debygol o gael effeithiau amgylcheddol arwyddocaol, ac a oes angen AEA o ganlyniad. Mae Cyfarwyddeb 2014 wedi cyflwyno rhestr fanwl newydd o'r wybodaeth y mae'r ymgeisydd yn ei darparu i'r awdurdod cymwys i'w helpu i sgrinio'r cais.

3.26 Newid arall a gyflwynwyd gan Gyfarwyddeb 2014 yw'r ffaith fod ymgeiswyr yn cyflwyno canlyniadau asesiadau eraill yn ymwneud ag effeithiau'r prosiect ar yr amgylchedd yn ystod y cam sgrinio. Mae'r canlyniadau hyn yn cael eu cyflwyno yn ddiweddarach yn y broses AEA ar hyn o bryd. Gallai hyn gynnwys asesiadau o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (2000/60/EC), y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol (2001/42/EC) a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (92/43/EEC). Hefyd, gall yr ymgeisydd gyflwyno gwybodaeth am unrhyw nodweddion o'r prosiect sy'n ceisio osgoi neu atal effeithiau niweidiol arwyddocaol ar yr amgylchedd. O dan Erthygl 4(5) o'r Gyfarwyddeb AEA, mae'n ofynnol i'r awdurdod cymwys wneud ei benderfyniad sgrinio ar sail y wybodaeth a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd, gan ystyried, lle bo hynny'n briodol, canlyniadau gwiriadau neu asesiadau rhagarweiniol a gwblhawyd yn unol â deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd ac eithrio'r Gyfarwyddeb AEA.

3.27 Mae Cyfarwyddeb 2014 wedi cyflwyno gofyniad y dylai'r awdurdodau cymwys gyhoeddi eu penderfyniadau sgrinio ac egluro'r prif resymau pam y mae angen/nad oes angen AEA. Mewn achosion pan na fydd angen AEA, mae'n rhaid i'r

penderfyniad a gyhoeddir nodi unrhyw nodweddion o'r prosiect a/neu gamau gweithredu i osgoi neu atal effeithiau negyddol ar yr amgylchedd.

3.28 Yn ôl Erthygl 3(1) o Gyfarwyddeb AEA 2014, rhaid sgrinio unrhyw gais sy'n cael ei gyflwyno cyn 17 Mai 2017 o dan ddarpariaethau'r Gyfarwyddeb AEA.

3.29 Rydym yn cynnig bod angen 'copïo' y gofynion newydd hyn yn y Rheoliadau Coedwigaeth, Amaethyddiaeth, Adnoddau Dŵr a Draenio Tir. Ar gyfer y Rheoliadau Gwaith Morol, rydym yn rhagweld y byddwn yn copïo'r rhan fwyaf o elfennau'r gofynion hyn, ond bydd angen eu haddasu i raddau er mwyn adlewyrchu geiriad presennol y rheoliadau. Mae ymgeiswyr sy'n gofyn am benderfyniad sgrinio yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban eisoes yn gallu cyfeirio at asesiadau perthnasol eraill wrth ddisgrifio effaith prosiect arfaethedig ar yr amgylchedd.

Cwestiwn 2. A oes angen gwybodaeth arnoch chi ynglŷn â'r mater hwn, ac os felly, pa fath o wybodaeth ydych chi ei hangen gennym ni i'ch helpu i gydymffurfio â'r gofynion newydd hyn?

Trothwyon (Erthygl 1(4) o Gyfarwyddeb 2014 – diwygiadau i Erthyglau 4(3), (4) a (5) o'r Gyfarwyddeb AEA)

3.30 Mae Cyfarwyddeb 2014 yn diwygio'r broses sy'n rhoi'r hawl i Aelod-wladwriaethau bennu trothwyon sy'n is na'r lefel lle nad oes angen i brosiectau a restrir yn Atodiad II gwblhau AEA, neu'r lefel sydd ei hangen nes bod cais yn gorfod mynd trwy gyfnod sgrinio'r broses AEA. Hefyd, mae'r diwygiadau yn darparu ar gyfer trothwyon absoliwt, h.y. os rhagorir ar drothwy, mae angen caniatâd AEA yn awtomatig.

3.31 Yn ôl Erthygl 4(3) o'r Gyfarwyddeb AEA, mae angen ystyried y meini prawf dethol perthnasol yn Atodiad III os yw prosiectau Atodiad II yn cael eu hasesu ar sail achosion unigol neu os yw Aelod-wladwriaethau wedi pennu trothwyon neu feini prawf. Mae'r meini prawf dethol yn Atodiad III wedi'u diwygio.

3.32 Nid oes unrhyw gynigion i newid darpariaethau presennol yn ymwneud â throthwyon y Rheoliadau Amaethyddiaeth, Adnoddau Dŵr, Draenio Tir a Gwaith Morol. Rydym yn cynnig diwygio'r Rheoliadau Coedwigaeth yn unig.

3.33 Mae'r Rheoliadau Coedwigaeth eisoes yn cynnwys trothwyon i helpu i benderfynu a fydd prosiect yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd. Mae'r trothwyon hyn yn gweithredu fel canllawiau: nid yw cyrraedd trothwy yn golygu yn awtomatig bod angen AEA ar gyfer prosiect – mae penderfyniad yn cael ei wneud drwy'r broses sgrinio. Yn yr un modd, mae'n bosibl y bydd angen caniatâd AEA ar gyfer prosiectau sydd o dan y trothwy. Byddwn yn cadw'r hyblygrwydd hwn ar gyfer prosiectau coedwigaeth, gan sicrhau bod modd gwneud penderfyniadau rhesymegol ynglŷn ag a oes angen caniatâd ar gyfer prosiect.

Trothwyon ar gyfer Prosiectau Coedwigo

3.34 Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn rhannu dyhead y sector coedwigaeth i greu mwy o goetir yng Nghymru a Lloegr^[1]. Er mwyn cefnogi'r dyhead hwn, rydym yn ystyried sut y gallai newidiadau i drothwyon AEA ar gyfer prosiectau coedwigo hyrwyddo'r broses o greu coetiroedd drwy roi rhagor o sicrwydd i reolwyr tir ynglŷn â'r broses AEA. **Ni** fydd hyn yn digwydd ar draul gwarchod yr amgylchedd.

3.35 Felly, rydym yn gofyn am eich safbwyntiau ar newidiadau arfaethedig i'r trothwyon ar gyfer prosiectau coedwigo. Mae'r rhain yn cynnwys plannu coedwigoedd a fforestydd newydd, hadu uniongyrchol neu atgynhyrchu naturiol a phlannu coed Nadolig neu goedlan cylchdro byr.

3.36 Dyma'r trothwyon presennol ar gyfer prosiectau coedwigo yng Nghymru a Lloegr:

Ardaloedd sensitif:	2 hectar os yw'r tir mewn Parc Cenedlaethol neu mewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. 0 hectar ym mhob ardal sensitif arall, h.y. Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Safleoedd Treftadaeth y Byd, Henebion Rhestredig, Ardal Cadwraeth Arbennig (gan gynnwys safleoedd ymgeisydd), Ardal Treftadaeth New Forest, a safleoedd sydd wedi'u neilltuo'n Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, neu sydd wedi'u cynnig i gael statws o'r fath.
Ardaloedd nad ydynt yn sensitif:	5 hectar

Trothwyon ar gyfer Prosiectau Coedwigo yn Lloegr

3.37 Rydym wedi defnyddio data gofodol sy'n dangos nodweddion a all gyfyngu ar y potensial i greu coetiroedd er mwyn datblygu mapiau o 'ardaloedd risg isel'¹ yn Lloegr. Rydym yn credu bod modd cynyddu'r trothwy ar gyfer prosiectau coedwigo yn yr ardaloedd risg isel hyn heb effeithio ar warchodaeth amgylcheddol.

3.38 Ni fyddai'r trothwyon presennol mewn ardaloedd sensitif (2 hectar mewn Parciau Cenedlaethol a'r Broads ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol; neu, fel arall, ardaloedd 0 hectar²) yn newid o dan unrhyw gynnydd. Mae'r sylfaen

^[1] Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn rhannu dyheadau'r sector coedwigaeth i gynyddu gorchudd coetir yn Lloegr o 10% i 12% erbyn 2060. I sicrhau hyn, byddai angen creu 5,800 hectar o goetir bob blwyddyn.

¹ Ardaloedd risg isel yw tir yn Lloegr nad yw'n gysylltiedig â'r canlynol: Ardaloedd Adar Pwysig yr RSPB, Dalgylchoedd Perygl Asid, Parciau Cenedlaethol, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, Gwarchodfeydd Natur Lleol, Tir Comin, trefniadau Stiwardiaeth Lefel Uwch, Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (Dosbarthiadau Tir 1-3a), Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA); Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA), Ardal Gwarchodedig Arbennig (SPA), Gwarchodfa Natur Genedlaethol (GNG), Safleoedd Treftadaeth y Byd, cynefin â blaenoriaeth wedi'i ddangos yn y Rhestr Cynefinoedd â Blaenoriaeth, Meysydd Brwydr Cofrestredig, Parciau a Gerddi Cenedlaethol a mawn dwfn.

² Mewn Gwarchodfa Natur Genedlaethol neu Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig; Safle Treftadaeth y Byd; Henebion Rhestredig; Ardal Cadwraeth Arbennig (gan gynnwys safleoedd ymgeisydd); Ardal Treftadaeth New Forest, neu safle sydd wedi'i neilltuo'n Ardal Gwarchodaeth Arbennig, neu sydd wedi'i gynnig i gael statws o'r fath.

dystiolaeth i gefnogi'r cynigion hyn ar gael yma: www.forestry.gov.uk/england-eiaconsultation

3.39 Mae'r newidiadau arfaethedig yn Lloegr yn cynnwys dewis ychwanegol i'r rhai sydd wedi'u cynnig yng Nghymru (gweler isod). Mae hyn yn deillio o'r gyfran gorchudd coetir is yn Lloegr (10% o gymharu â 15% yng Nghymru) ac adborth gan randdeiliaid sy'n nodi bod angen arwynebedd o 100 hectar o leiaf i greu coetir sy'n hyfyw yn fasnachol.

Cwestiwn 3. Pa un o'r dewisiadau canlynol sy'n well gennych chi ar gyfer cynyddu trothwyon coedwigo yn Lloegr:

- a) Cadw'r trothwyon presennol mewn ardaloedd nad ydynt yn sensitif (5 hectar) ond cynyddu'r trothwy o 5 i 20 hectar mewn ardaloedd a nodwyd yn rhai risg isel.
- b) Cadw'r trothwyon presennol mewn ardaloedd nad ydynt yn sensitif (5 hectar) ond cynyddu'r trothwy o 5 i 50 hectar mewn ardaloedd a nodwyd yn rhai risg isel.
- c) Cadw'r trothwyon presennol mewn ardaloedd nad ydynt yn sensitif (5 hectar) ond cynyddu'r trothwy o 5 i 100 hectar mewn ardaloedd a nodwyd yn rhai risg isel.

Cwestiwn 4. Beth yw'ch safbwyntiau ar y cynigion canlynol ar gyfer diogelu'r amgylchedd os yw'r trothwy yn Lloegr yn cynyddu:

- a) Cadw'r dull gweithredu presennol: nid yw'n ofynnol hysbysu Comisiwn Coedwigaeth Lloegr am gynigion sydd o dan y trothwy cyn dechrau'r gwaith.
- b) Hysbysu Comisiwn Coedwigaeth Lloegr am y cynnig a chyflwyno gwybodaeth sy'n cadarnhau ei fod yn cydymffurfio â Safon Coedwigoedd y DU – gan ddangos sut y bydd cynllun y coetir yn lliniaru unrhyw effaith amgylcheddol niweidiol – ac aros 28 diwrnod gwaith i Gomisiwn Coedwigaeth Lloegr adolygu hyn cyn dechrau'r gwaith.
- c) Hysbysu Comisiwn Coedwigaeth Lloegr am y cynnig a chyflwyno gwybodaeth sy'n cadarnhau ei fod yn cydymffurfio â Safon Coedwigoedd y DU – gan ddangos sut y bydd cynllun y coetir yn lliniaru unrhyw effaith amgylcheddol niweidiol - ac aros 42 diwrnod gwaith i Gomisiwn Coedwigaeth Lloegr adolygu hyn, gan gynnwys sicrhau bod y cynllun yn ymddangos mewn cofrestr gyhoeddus fel bod rhanddeiliaid yn gallu cyflwyno sylwadau cyn dechrau'r gwaith.

Trothwyon ar gyfer Prosiectau Coedwigo yng Nghymru

3.40 Yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu'r map cyfleoedd coetir. Mae'r map cyfleoedd coetir ar gael yn: <http://lle.gov.wales/apps/woodlandopportunities/?lang=cy>. Mae'r map hwn yn eithrio pob safle sensitif, ac mae'n dangos bod tua 35% o arwynebedd Cymru yn ardaloedd nad ydynt yn amgylcheddol sensitif sy'n addas ar gyfer cynigion i greu

coetir. Mae'r broses o greu coetir yng Nghymru yn cael ei chefnogi'n bennaf gan Gynllun Creu Coetir Glastir, sy'n rhan o Gynllun Datblygu Gwledig Cymunedau Gwledig. Mae Glastir yn cefnogi plannu coed cymysg a choed cynhenid yn hytrach na phlannu coed conwydd yn gyfan gwbl, ac mae'n sicrhau bod gwaith plannu coetir yn cydymffurfio â Safon Coedwigaeth y DU, sef y meincnod ar gyfer rheoli coedwigoedd cynaliadwy yn y DU.

3.41 Mae trothwy sero neu drothwy isel iawn yn briodol mewn ardaloedd sensitif er mwyn gwarchod nodweddion amgylcheddol arbennig yr ardaloedd hynny. Mae'r trothwy 5 hectar presennol ar gyfer ardaloedd nad ydynt yn sensitif yn isel, yn bennaf oherwydd bod y rhan fwyaf o'r coetir sy'n cael ei greu yng Nghymru yn seiliedig ar ddulliau sy'n cael eu rheoli neu eu rheoleiddio, fel Glastir, a bod y sensitifrwydd amgylcheddol sy'n gysylltiedig â phlannu'r cyfryw goed yn isel. Mae modd cynyddu lefel y trothwy ar gyfer ardaloedd nad ydynt yn sensitif er mwyn hyrwyddo'r broses o greu coetir, gan sicrhau bod prosiectau plannu mwy o ran maint sy'n fwy amgylcheddol sensitif yn parhau i gael eu sgrinio'n briodol.

Cwestiwn 5. Beth yw'ch safbwyntiau ar gynyddu'r trothwyon mewn ardaloedd nad ydynt yn sensitif yng Nghymru i un o'r ddwy lefel ganlynol:-

- (a) cynyddu'r trothwy coedwigo ar gyfer ardaloedd nad ydynt yn sensitif o 5 hectar i 20 hectar;**
- (b) cynyddu'r trothwy coedwigo ar gyfer ardaloedd nad ydynt yn sensitif o 5 hectar i 50 hectar.**

Y cyfnod o amser ar gyfer gwneud penderfyniadau sgrinio (Erthygl 1(4) o Gyfarwyddeb 2014 – diwygiad i Erthygl 4 o'r Gyfarwyddeb AEA)

3.42 Mae Cyfarwyddeb 2014 wedi cyflwyno gofyniad i'r awdurdod cymwys wneud ei benderfyniad sgrinio cyn gynted â phosibl ac ymhen 90 diwrnod i'r dyddiad pan fydd y datblygwr yn darparu'r holl wybodaeth ofynnol. Mae modd ymestyn y cyfnod hwn mewn amgylchiadau eithriadol ond mae'n rhaid i'r awdurdod egluro'r rheswm am yr estyniad.

3.43 O dan y Rheoliadau Coedwigaeth presennol, gall dau gyfnod o amser gwahanol fod yn berthnasol i benderfyniadau sgrinio AEA:

- a) Os yw Comisiwn Coedwigaeth Lloegr (FCE) neu Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn derbyn cais am benderfyniad sgrinio, ar hyn o bryd mae'n rhaid iddynt wneud penderfyniad neu ganiatáu estyniad ymhen 28 diwrnod. Rydym yn cynnig newid hyn fel bod gan FCE a CNC hyd at 90 diwrnod i wneud y penderfyniadau sgrinio hyn. Bwriad y newid arfaethedig hwn yw rhoi mwy o amser i FCE a CNC adolygu'r wybodaeth ychwanegol sy'n cael ei darparu gan ymgeiswyr yn ystod y cam sgrinio, a mynd ati i gofnodi penderfyniadau. Bydd FCE a CNC yn gweithio mor effeithlon â phosibl gan barhau i weithio yn unol â'r cyfnod 28 diwrnod os oes modd.
- b) Fodd bynnag, os na ddaw unrhyw gais am sgrinio i law, a bod FCE a CNC yn dewis gwneud penderfyniadau sgrinio yn ddigymell, ni fydd unrhyw gyfnod amser yn berthnasol. Nid oes unrhyw newid yn cael ei gynnig i'r trefniant hwn.

3.44 O safbwynt y Rheoliadau Amaethyddiaeth, rydym yn cynnig copïo'r paragraff newydd yn y Rheoliadau, ond bydd yn ofynnol i Natural England wneud ei benderfyniad cyn gynted ag y bo modd o hyd.

3.45 Ar hyn o bryd, mae'r Rheoliadau Adnoddau Dŵr yn darparu cyfnod o dair wythnos ar gyfer penderfyniadau sgrinio o ddyddiad y cais gwreiddiol neu gyflwyno gwybodaeth ychwanegol, oni bai bod estyniad wedi'i gytuno â'r ymgeisydd. Os yw'r awdurdod yn dymuno ymestyn y terfyn amser hwn ar gyfer gwneud penderfyniad, bydd angen iddo hysbysu'r ymgeisydd ar ffurf ysgrifenedig gan roi'r rhesymau am yr estyniad a dyddiad arfaethedig ei benderfyniad. Nid ydym yn cyflwyno cynnig i newid y dyddiad hwn. Byddwn yn copïo'r gofynion i wneud penderfyniad ymhen 90 diwrnod.

3.46 Nid yw'r Rheoliadau Draenio Tir presennol yn cynnwys unrhyw gyfyngiadau ar y terfyn amser ar gyfer gwneud penderfyniad (naill ai gan y corff draenio neu'r Gweinidog). Rydym yn cynnig y dylid newid hyn i sicrhau bod yn rhaid i'r awdurdod cymwys wneud ei benderfyniad ymhen 90 diwrnod. Rydym yn cynnig 'copïo' y newid hwn o Gyfarwyddeb 2014.

3.47 O dan y Rheoliadau Gwaith Morol presennol, mae'n rhaid i bartïon penodedig gael gwybod am benderfyniad sgrinio cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, ac mae'n rhaid cyhoeddi'r penderfyniad cyn gynted â phosibl ar ôl hysbysu'r ymgeisydd. Nid oes unrhyw ofynion i'r awdurdod priodol wneud y penderfyniad ymhen amser penodedig. Rydym yn cynnig bod angen diwygio'r gofynion presennol i sicrhau bod yn rhaid i awdurdod priodol hysbysu partïon penodedig am benderfyniad sgrinio a datganiad o resymau cyn gynted â phosibl ar ôl i'r ymgeisydd gyflwyno cais am sgrinio (sy'n cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol) ymhen 90 diwrnod o leiaf ar ôl cyflwyno'r cyfryw gais. Rydym yn bwriadu caniatáu ymestyn y cyfnod hwn mewn amgylchiadau eithriadol.

<p>Cwestiwn 6. A ydych chi'n cytuno â'n cynigion i newid yr amser ar gyfer gwneud penderfyniadau sgrinio?</p>
--

Cwmpasu (*Erthygl 1(5) o Gyfarwyddeb 2014 – yn diwygio Erthygl 5(1) a (2) o'r Gyfarwyddeb AEA*)

3.48 Os oes angen Asesu Effeithiau Amgylcheddol prosiect arfaethedig ar ôl y cam sgrinio, mae modd mynd trwy'r cam 'cwmpasu'. Cam gwirfoddol yw hwn sy'n gyfle i ymgeisydd ofyn am farn yr awdurdod cymwys ar y cwmpas ac ar y wybodaeth sydd angen ei chynnwys yn yr adroddiad ar asesu effeithiau amgylcheddol (cyfeirir at hyn fel datganiad amgylchedd weithiau).

3.49 Cyn cyflwyno barn ar gwmpasu, mae'n rhaid i'r awdurdod cymwys ymgynghori ag awdurdodau penodedig eraill a all fod â diddordeb yn y cynigion. Mae'n rhaid i'r farn ar gwmpasu ystyried y wybodaeth am y prosiect sydd wedi'i chyflwyno gan yr ymgeisydd, fel ei leoliad, ei gapasiti technegol a'i effaith debygol ar yr amgylchedd.

3.50 Mae'r Gyfarwyddeb AEA yn nodi'r wybodaeth sylfaenol sydd angen ei chyflwyno i gael barn ar sgrinio ac ar gyfer y cais am farn ar gwmpasu. Mae'r Gyfarwyddeb AEA yn cynnwys hyn yn Atodiad IV ynghyd â rhestr hirach o bynciau

sydd angen eu cynnwys os yn berthnasol. Mae Cyfarwyddeb 2014 wedi cyflwyno gofynion sylfaenol i Erthygl 5(1) o'r Gyfarwyddeb AEA, gan nodi'r hyn sydd angen ei gynnwys mewn adroddiad ar asesu'r effeithiau amgylcheddol. Mae hyn yn cynnwys mesurau lliniaru, crynodeb annhechnegol, a disgrifiad o ddewisiadau amgen rhesymol (os yw'r ymgeisydd eisoes wedi astudio'r rhain) – gweler yr adran nesaf.

3.51 Rydym yn cynnig y dylid copïo'r gofynion newydd hyn yn y rheoliadau. Fodd bynnag, o safbwynt y Rheoliadau Gwaith Morol, mae angen gwneud rhai diwygiadau bach i'r Gyfarwyddeb er mwyn adlewyrchu terminoleg bresennol y Rheoliadau. Hefyd, rydym yn bwriadu cynnwys darpariaeth i egluro nad yw awdurdod priodol yn cael ei rwystro rhag gofyn am ragor o wybodaeth er bod datganiad amgylcheddol wedi'i gyflwyno sy'n cynnwys yr holl wybodaeth yn y farn ar gwmpasu. Er ein bod yn credu bod hyn eisoes ymhlyg yn rheoliad 14 o'r Rheoliadau Gwaith Morol, rydym yn awyddus i'w nodi'n fwy eglur yn y darpariaethau cwmpasu. Dylai unrhyw wybodaeth ychwanegol y gofynnir amdani fod yn uniongyrchol berthnasol i wneud penderfyniad rhesymegol ar effeithiau arwyddocaol y prosiect ar yr amgylchedd, ac rydym yn bwriadu egluro hyn yn Rheoliadau Gwaith Morol.

Ymgynghori ag eraill ym mhroses Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Erthygl 1(6) o Gyfarwyddeb 2014 – yn diwygio Erthygl 6 o Gyfarwyddeb AEA)

3.52 Rhaid i'r awdurdod cymwys gyhoeddi ei hysbysiad o geisiadau datblygu sydd angen AEA, gan roi cyfle i'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill adolygu a gwneud sylwadau ar ganfyddiadau'r AEA. Rhaid ystyried unrhyw adborth cyn gwneud penderfyniad ar ganiatâd. Mae Cyfarwyddeb 2014 wedi ei gwneud hi'n ofynnol i wybodaeth fod ar gael yn electronig, yn ogystal â thrwy ddulliau mwy traddodiadol megis postio biliau. Gall awdurdodau cymwys ychwanegu hysbysiadau papur newydd at y dulliau ymgynghori.

3.53 Fel rhan o'n hasesiad o effaith y newidiadau arfaethedig i'r rheoliadau AEA ar gydraddoldeb, aethom ati i ystyried dileu cyfeiriadau penodol at bapurau newydd yn y rheoliadau er mwyn lleihau costau hysbysebu. O ganlyniad i'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, penderfynwyd cadw'r gofyniad i ddefnyddio dulliau heblaw dulliau electronig ar gyfer hysbysiadau.

3.54 Mae Cyfarwyddeb 2014 wedi cyflwyno gofyniad am isafswm amser newydd ar gyfer ymgynghoriadau cyhoeddus (ar adroddiad AEA), sef 30 diwrnod o leiaf. Mae hwn wedi codi o 28 diwrnod.

3.55 Rydym yn cynnig y dylai'r gofynion newydd hyn gael eu copïo i bob rheoliad, ac eithrio'r Rheoliadau Amaethyddiaeth, sydd eisoes ag amserlen hwy (chwe wythnos) a'r Rheoliadau Gwaith Morol, sy'n darparu ar gyfer 42 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad ar gyfer sylwadau cyhoeddus. Rydym yn cynnig y dylid diwygio'r rheoliadau presennol i'w gwneud hi'n glir bod y 42 diwrnod yn dechrau o gyhoeddiad cyntaf yr hysbysiad. Rydym yn cynnig hefyd y dylid ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdod priodol gyhoeddi hysbysiad o'r cais a darparu deunydd perthnasol i gyrff ymgynghori (neu gyfarwyddo'r ymgeisydd i wneud hynny) "cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol".

3.56 Mae'r Rheoliadau Gwaith Morol yn darparu ar gyfer cyfranogiad cyhoeddus hefyd (rheoliad 16 ac Atodlen 5), ond mae'r weithdrefn yn gaeth a chymhleth.

Rydym yn ystyried a oes modd symleiddio'r dull presennol, a byddem yn croesawu sylwadau ar hyn cyn i ni benderfynu ar welliannau i'r dull presennol.

Cwestiwn 7. Ydych chi'n cytuno y dylem barhau i ddefnyddio dulliau heblaw dulliau electronig ar gyfer hysbysiadau i roi gwybod i'r cyhoedd am ymgynghoriad?

Cwestiwn 8. Ydych chi'n credu y dylid symleiddio'r weithdrefn cyfranogiad cyhoeddus yn y Rheoliadau Gwaith Morol? Os felly, dywedwch sut.

Ymgynghoriadau ar effeithiau trawsffiniol prosiect (*Erthygl 1(7) o Gyfarwyddeb 2014/52/EU – yn diwygio erthygl 7(4) o Gyfarwyddeb AEA*)

3.57 Mae'r gwelliant hwn yn berthnasol i brosiectau sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd mewn gwlad arall yn yr UE, gan alluogi ymgynghoriadau cyhoeddus ar brosiectau i gael eu rhedeg gan gorff priodol.

3.58 Nid ydym yn cynnig y dylai'r darpariaethau hyn gael eu derbyn. Mae hyn yn rhywbeth y mae'n rhaid i MS ei wneud. Fodd bynnag, yn achos rheoliadau AEA Defra, mae ond yn berthnasol yng nghyd-destun y Rheoliadau Gwaith Morol. Nid oes unrhyw un o'r rheoliadau eraill yn ymwneud â phrosiectau sy'n debygol o gael effeithiau trawsffiniol.

3.59 Mae'r Rheoliadau Gwaith Morol eisoes yn cynnwys darpariaethau yn ymwneud â darparu gwybodaeth i Wladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA) sy'n cael eu heffeithio, ac ymgynghori â nhw. Rydym yn cynnig gwneud rhai gwelliannau i'r darpariaethau presennol i gyfuno'r gofynion yn rheoliad 18 ac 19 ac, os yw awdurdod priodol o'r farn bod un o Wladwriaethau'r EEA yn cael ei heffeithio gan y cais neu fod un o Wladwriaethau eraill yr EEA yn debygol o gael ei heffeithio'n sylweddol, rhaid i'r awdurdod priodol anfon gwybodaeth berthnasol i'r Wladwriaeth honno cyn gynted â phosibl, gyda darpariaeth ar gyfer gwybodaeth ychwanegol i'w darparu os bydd Gwladwriaeth am gymryd rhan mewn ymgynghoriad. Yn y Rheoliadau, rydym yn cynnig y dylid egluro y dylai'r cyfnod rhesymol a gytunwyd ar gyfer ymgynghoriad â Gwladwriaethau'r EEA ddarparu lle ar gyfer barn y cyhoedd a'r awdurdodau y cyfeiriwyd atynt yn Erthygl 6(1) o'r Gyfarwyddeb ar y wybodaeth a ddarparwyd. Rydym hefyd am osod darpariaeth i gydymffurfio ag Erthygl 7 mewn perthynas â phrosiect sy'n cael ei gynnal yn un o Wladwriaethau eraill yr EEA sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar amgylchedd y DU (gan gynnwys Ardal Forol y DU, ac eithrio rhanbarth glannau'r Alban). Diben darpariaeth o'r fath yw galluogi gwybodaeth a dderbynnir am brosiect sy'n cael ei gynnal yn un o Wladwriaethau eraill yr EEA i fod ar gael i awdurdodau perthnasol a'r cyhoedd er mwyn hwyluso cyfranogiad yng ngweithdrefn ymgynghori'r Wladwriaeth honno.

3.60 Rydym yn cynnig na ddylai'r gofynion newydd hyn gael eu copïo i'r rheoliadau.

Caniatâd – Esbonio Penderfyniadau a Monitro effeithiau amgylcheddol sylweddol (*Erthygl 1(9) o Gyfarwyddeb 2014 – yn gosod darpariaeth newydd Erthygl 8a yn y Gyfarwyddeb AEA*)

3.61 Mae'r ddarpariaeth newydd hon o Gyfarwyddeb 2014 yn amlinellu gofynion i gynnwys gwybodaeth mewn penderfyniad i roi caniatâd datblygu. Yn dilyn ymgynghoriad, os bydd awdurdod cymwys yn penderfynu rhoi caniatâd am brosiect, cyhoeddir y penderfyniad hwnnw ar bapur. Mae'r penderfyniad yn cynnwys y casgliad rhesymegol, amodau amgylcheddol a disgrifiad o unrhyw rannau neu gamau gweithredu yn y prosiect i leihau'r risg o effeithiau andwyol sylweddol ar yr amgylchedd. Os penderfynir gwrthod rhoi caniatâd, rhoddir y prif resymau dros ei wrthod.

3.62 Rhaid i hysbysiad o benderfyniad gynnwys unrhyw fesurau monitro arfaethedig hefyd. Mae gennym rywfaint o hyblygrwydd ar y gweithdrefnau i fonitro effeithiau amgylcheddol andwyol sylweddol. Dylai'r monitro, gan gynnwys ei hyd, fod yn gymesur â natur, lleoliad a maint y prosiect ac arwyddocâd ei effeithiau ar yr amgylchedd. Gallwn gadw trefniadau monitro presennol.

3.63 Bydd yr awdurdod yn rhoi gwybod i'r cyhoedd a'r cyrff ymgynghori statudol am y penderfyniad a'i gynnwys, gan gynnwys crynodeb o ganlyniadau'r ymgynghoriad.

3.64 Mewn perthynas â'r Rheoliadau Coedwigaeth, ni chynigir unrhyw newid; mae Forestry Commission England (FCE) neu Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) eisoes yn darparu datganiad yn amlinellu'r rheswm dros roi caniatâd ac unrhyw amodau cysylltiedig.

3.65 Ar gyfer y Rheoliadau Gwaith Morol, rydym yn cynnig y dylid gwneud y newidiadau canlynol er mwyn gweithredu gofynion Erthygl 8a:

- a) Erthygl 8a(1) – Rydym yn cynnig y dylid cynnwys darpariaeth yn rheoliad 22 o'r Rheoliadau Gwaith Morol (y penderfyniad caniatâd AEA) yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdod priodol ystyried a ddylid gosod unrhyw amodau ar ganiatâd AEA, gan gynnwys cyfeirio at amodau lliniaru neu fonitro. Rydym yn cynnig y dylid mabwysiadu geiriad sy'n gyson ag erthygl 8a(1)(b) a 8a(4) wrth ddisgrifio amodau lliniaru a monitro o'r fath. Rydym yn cynnig y dylid diwygio rheoliad 24 fel bod y casgliad rhesymegol yn y penderfyniad caniatâd AEA, ynghyd ag unrhyw amodau amgylcheddol, disgrifiad o unrhyw nodweddion a/neu fesurau y rhagwelir y byddant yn osgoi, atal neu leihau effeithiau andwyol sylweddol ar yr amgylchedd a mesurau monitro sy'n gysylltiedig â'r penderfyniad caniatâd AEA, yn cael eu hymgorffori yn y penderfyniad ar gymeradwyaeth reoleiddiol (e.e. trwydded forol). Rydym yn cynnig y dylid cynnwys darpariaethau yn y Rheoliadau i ofynion erthygl 8a(1) gael eu bodloni mewn achosion lle mae'r AEA wedi'i gynnal o dan drefn wahanol i'r Rheoliadau Gwaith Morol a lle mae'r awdurdod priodol wedi rhoi rheoliad 10(1)(b) o'r Rheoliadau ar waith. Diben gwelliannau o'r fath yw galluogi'r casgliad rhesymegol ac unrhyw wybodaeth berthnasol sy'n ofynnol o dan erthygl 8a(1) sydd wedi'i chynnwys yn y penderfyniad i roi caniatâd datblygu o dan drefn AEA arall (e.e. trefnau porthladdoedd neu gynllunio daearol) i gael eu hymgorffori yn y penderfyniad rheoleiddiol hwnnw.
- b) Erthygl 8a(2) – Mae'r Rheoliadau Gwaith Morol eisoes yn darparu ar gyfer rhoi rhesymau dros wneud penderfyniad caniatâd AEA cadarnhaol. Rydym yn cynnig y dylid gwneud rhai gwelliannau i'r geiriad presennol er mwyn adlewyrchu gofynion y Gyfarwyddeb yn fwy cywir. Yn arbennig, rydym yn

cynnig y dylid ei gwneud hi'n ofynnol i'r rheoleiddiwr roi rhesymau yn y penderfyniad rheoleiddiol os bydd caniatâd yn cael ei wrthod.

- c) Erthygl 8a(3) – Mae'r erthygl yn gosod darpariaethau ar weithdrefnau nad ydynt yn rhan o'r cais am ganiatâd datblygu. Mae'r erthygl hon yn arbennig o berthnasol i'r Rheoliadau Gwaith Morol oherwydd y dull dau gam a fabwysiadwyd h.y. mae'r penderfyniad caniatâd AEA ar wahân i'r gymeradwyaeth reoleiddiol. Rydym wedi dehongli'r ddarpariaeth i olygu bod rhaid i wybodaeth sy'n ofynnol o dan erthygl 8a(1) a (2) gael ei chynnwys yn y penderfyniad caniatâd AEA a'r penderfyniad rheoleiddiol, ynghyd â chydymffurfiaeth o dan erthygl 8a(6).
- d) Erthygl 8a(4) – Mae'r erthygl hon yn ceisio sicrhau bod amodau amgylcheddol yn cael eu rhoi ar waith gan y datblygwr ac yn darparu ar gyfer Aelod-wladwriaethau i bennu gweithdrefnau yn ymwneud â monitro effeithiau andwyol sylweddol. Mae'r fframwaith trwyddedu morol yn darparu ar gyfer monitro. Rydym yn cynnig hefyd y dylid cynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdod priodol, wrth ystyried a ddylid gosod amod monitro (gweler y paragraff ar erthygl 8a(1) uchod): (i) ystyried a ddylid gwneud darpariaeth ar gyfer camau adfer posibl; (ii) cymryd camau i sicrhau bod y math o bamedrau i'w monitro a hyd y monitro yn gymesur â natur, lleoliad a maint y prosiect ac arwyddocâd ei effeithiau ar yr amgylchedd; ac (iii) ystyried (er mwyn osgoi dyblygu monitro) a yw trefniadau monitro presennol sy'n codi o ddeddfwriaeth Undeb arall yn fwy priodol na gosod amod monitro.
- e) Erthygl 8a(5) – Mae'r erthygl yn ei gwneud hi'n ofynnol i benderfyniadau y cyfeirir atynt yn erthygl 8a(1)-(3) gael eu gwneud o fewn cyfnod rhesymol. Rydym yn cynnig y dylid cynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r penderfyniad caniatâd AEA a'r penderfyniad rheoleiddiol gael eu gwneud o fewn cyfnod rhesymol, gan ystyried natur a chymhlethdod y prosiect a gweithgareddau a reoleiddir. Rhagwelir y bydd hyn yn amodol ar ddarpariaethau presennol yn y Rheoliadau sy'n caniatáu i awdurdod priodol atal cynnydd gyda chais hyd nes y bydd yr ymgeisydd wedi cymryd camau penodol (e.e. darparu gwybodaeth ofynnol).
- f) Erthygl 8a(6) – Mae'r erthygl hon yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r casgliad rhesymegol ar effeithiau sylweddol y prosiect ar yr amgylchedd a phenderfyniadau y cyfeirir atynt yn erthygl 8a(3) fod yn gyfredol pan fo'r awdurdod cymwys yn gwneud penderfyniad i roi caniatâd datblygu. Rydym yn cynnig y dylid cynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r casgliad rhesymegol fod yn gyfredol pan fo'r penderfyniad caniatâd AEA a'r penderfyniad ar gymeradwyaeth reoleiddiol yn cael eu gwneud. Rydym yn cynnig hefyd y dylid cynnwys darpariaeth sy'n nodi bod rhaid i'r penderfyniad caniatâd AEA fod yn gyfredol pan fo'r penderfyniad rheoleiddiol yn cael ei wneud, er ein bod yn disgwyl na fyddai cyfnod sylweddol o amser rhwng gwneud y penderfyniad caniatâd AEA a'r penderfyniad rheoleiddiol.

3.66 Mae'r Rheoliadau Gwaith Morol yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdod priodol anfon cadarnhad ysgrifenedig o'i benderfyniad caniatâd AEA at yr ymgeisydd, y rheoleiddiwr (oni bai mai'r awdurdod priodol yw'r rheoleiddiwr), aelodau'r cyhoedd a gyflwynodd sylwadau, cyrff ymgynghori a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad ac

awdurdodau Gwladwriaethau yn yr EEA yr ymgynghorwyd â nhw. Hoffem gynnwys rhwymedigaeth gyfwerth ar y rheoleiddiwr mewn perthynas â hysbysu partïon o'r fath am y penderfyniad rheoleiddiol. Bydd y rhwymedigaeth hon ar yr awdurdod priodol a'r rheoleiddiwr yn cael ei chyflwyno cyn gynted â phosibl.

3.67 Mewn perthynas â rheoliadau eraill, rydym yn cynnig y dylid copïo'r gofynion newydd hyn.

Adran 2 – Gofynion perthnasol

3.68 Mae Cyfarwyddeb 2014 yn cyflwyno sawl gofyniad perthnasol arall:

Arbenigwyr cymwys (Erthygl 5(3) o Gyfarwyddeb 2014 – yn diwygio Erthygl 5(3) o'r Gyfarwyddeb AEA)

3.69 Mae Cyfarwyddeb 2014 wedi cyflwyno gofyniad sy'n nodi bod rhaid i'r ymgeisydd sicrhau bod y datganiad amgylcheddol yn cael ei baratoi gan arbenigwyr cymwys. Yn ogystal, rhaid i'r awdurdod cymwys sicrhau bod ganddo arbenigedd digonol i archwilio'r datganiad amgylcheddol, neu fod ganddo fynediad at arbenigedd o'r fath yn ôl yr angen. Ein barn gychwynnol yw naill ai bod gan y rhan fwyaf o benderfynwyr bobl ag arbenigedd digonol yn eu timau i archwilio'r datganiad amgylcheddol, neu y gallent gael gafaél ar arbenigedd o'r fath yn gymharol rwydd. Bydd ganddynt hefyd unrhyw sylwadau gan y cyrff ymgynghori statudol, gan gynnwys Natural England ac Asiantaeth yr Amgylchedd, i'w helpu nhw.

3.70 Rydym yn cynnig y dylid copïo'r darpariaethau hyn i'n Rheoliadau Coedwigaeth, Amaethyddiaeth, Adnoddau Dŵr a Draenio Tir. Yn achos y Rheoliadau Gwaith Morol, byddwn yn egluro'r termau yn y Rheoliadau fel eu bod yn cyd-fynd â Chyfarwyddeb 2014. Dylai unrhyw wybodaeth bellach y gofynnir amdani fod yn uniongyrchol berthnasol i'r broses o ddod i'r casgliad rhesymegol.

3.71 Rydym yn cynnig y dylid mabwysiadu'r diffiniad canlynol o 'arbenigwyr cymwys' (*competent experts*): *“persons who, by virtue of their qualifications or experience, have sufficient expertise to ensure the completeness and quality of the statement”*. Rydym yn cynnig y dylid mabwysiadu hyn ar draws yr holl reoliadau. Yn y Rheoliadau Gwaith Morol, rydym yn cynnig y dylid ei gwneud hi'n ofynnol i'r ymgeisydd gynnwys datganiad yn y datganiad amgylcheddol yn amlinellu sut mae'r ddarpariaeth hon wedi'i chyflawni.

Cwestiwn 9. Ydych chi'n cytuno gyda'n cynigion?
--

Gwrthdaro Buddiannau (Erthygl 1(9) o Gyfarwyddeb 2014 – yn gosod Erthygl 9a yn y Gyfarwyddeb AEA)

3.72 Mae Cyfarwyddeb 2014 wedi cyflwyno gofyniad sy'n nodi bod rhaid i'r awdurdodau cymwys fod yn wrthrychol ac osgoi gwrthdaro buddiannau. Os mai'r awdurdod cymwys yw'r ymgeisydd hefyd, rhaid bod gwahaniad priodol rhwng y bobl sy'n gwneud y cais a'r bobl sy'n cyflawni'r rôl fel awdurdod cymwys.

3.73 Nid ydym yn cynnig y dylid gwneud newid i'r Rheoliadau Coedwigaeth. Mae hyn oherwydd bod Forestry Commission England (FCE) a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) fel awdurdodau cyhoeddus eisoes yn ddarostyngedig i egwyddorion cyfraith gyhoeddus sy'n ei gwneud hi'n ofynnol iddynt weithredu mewn ffordd wrthrychol ac osgoi gwrthdaro buddiannau. Adlewyrchir hyn yn strwythurau sefydliadol FCE a CNC sy'n gwahanu gweithgareddau rheoleiddiol oddi wrth weithgareddau gweithredol i osgoi gwrthdaro buddiannau.

3.74 Ar gyfer y Rheoliadau Amaethyddiaeth ac Adnoddau Dŵr, rydym yn cynnig y dylid copïo'r gofynion newydd hyn i'r rheoliadau.

3.75 Mewn perthynas â'r Rheoliadau Draenio Tir, mae cyrff cyhoeddus eisoes yn cyflawni eu swyddogaethau mewn ffordd nad yw'n arwain at wrthdaro buddiannau. Yn Lloegr, rhaid i awdurdodau lleol a Byrddau Draenio Mewnol glirio eu gwaith arfaethedig (gan gynnwys clirio'r AEA) gydag Asiantaeth yr Amgylchedd cyn dechrau. Nid oes gan Asiantaeth yr Amgylchedd gorff ar wahân ar gyfer rhoi cliriad, ond mae'r penderfyniad a'r cyfrifoldebau ar gyfer y prosiect ac ar gyfer AEA yn perthyn i wahanol dimau. Ein barn ni yw bod eisoes digon o wahaniad swyddogaethol yn y trefniadau llywodraethu rhwng y rhai sy'n ceisio cyflawni'r prosiect gwella draenio tir a'r rhai sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r AEA. Rydym yn gyfforddus bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) y gwahaniad swyddogaethol hefyd, felly nid ydym yn cynnig y dylid gwneud unrhyw welliannau pellach i'r rheoliadau.

3.76 Yn achos y Rheoliadau Gwaith Morol, nid oes unrhyw ddarpariaethau ar hyn o bryd. Hoffem osod darpariaeth sy'n mabwysiadu dull copïo cyffredinol.

Cosbau (Erthygl 13 o Gyfarwyddeb 2014 – yn mewnosod Erthygl 10a yn y Gyfarwyddeb AEA)

3.77 Mae Gyfarwyddeb 2014 yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni gyflwyno cosbau am achosion o dorri ein rheoliadau AEA. Rhaid i'r cosbau fod yn effeithiol, yn gymesur ac yn anghymhellol.

3.78 Nid ydym yn cynnig y dylid gwneud unrhyw newidiadau i'r darpariaethau rheoleiddiol presennol.

Adran 3 – Newidiadau eraill yn y rheoliadau presennol

Rheoliadau Amaethyddiaeth

3.79 Rydym wedi nodi'r pedwar newid canlynol yr ydym yn teimlo y byddant yn helpu i egluro'r Rheoliad Amaethyddiaeth a gwella'r broses:

- a) **Newid i'r diffiniad presennol o “cultivated” (“tir sydd wedi'i drin”).** Mae'r diffiniad presennol wedi'i amlinellu yn rheoliad 2 (1), sef: *“cultivated by physical means (including ploughing and harrowing) or chemical means (including the application of fertilisers)”*. It is proposed that the definition should be amended to read *“cultivated means cultivated by physical means (including all*

agricultural activities that break the soil surface) or chemical means (including the application of fertilisers or soil enhancers)".

Cwestiwn 10: Ydych chi'n cytuno gyda'r newid arfaethedig?

Cwestiwn 11: A oes gennych chi gynnig arall?

- b) **Newid i'r diffiniad o "good environmental condition" ("cyflwr amgylcheddol da").** Mae Rheoliad 27 (2) (b) yn nodi: "*A remediation notice may require the person – to take such other steps as Natural England thinks fit to return the relevant land to good environmental condition".* Nid yw'r Rheoliad presennol yn cynnwys unrhyw ddiffiniad o "gyflwr amgylcheddol da". Mae'r term hwn yn cael ei ddefnyddio mewn prosesau trawsgydymffurfio hefyd, a chynigir y bydd diffiniad yn helpu i egluro'r sefyllfa i NE a defnyddwyr terfynol. Cynigir y dylid newid y geiriad presennol o: "*(b) to take such other steps as Natural England thinks fit to return the relevant land to good environmental condition*" to *(b) to take such other steps as Natural England thinks fit to ensure the relevant land can support the environmental interest/s which have been identified on that land*".

Cwestiwn 12: Ydych chi'n cytuno gyda'r newid arfaethedig?

Cwestiwn 13: A oes gennych chi gynnig arall?

- c) Hoffem allu newid y terfyn amser ar gyfer cyflwyno apêl er mwyn galluogi'r ymgeisydd i gymryd camau i adfer y sefyllfa a/neu alluogi trafodaethau i barhau i geisio sicrhau ateb, gan osgoi'r angen i apelio. I'r perwyl hwn, hoffem i'r frawddeg ganlynol gael ei gosod yn rheoliad 31 (3) (c): "*This period may be extended by 14 days if both parties agree to do so by mutual consent.*"

Cwestiwn 14: Ydych chi'n cytuno gyda'r newid arfaethedig?

Cwestiwn 15: A oes gennych chi gynnig arall?

- d) Rydym yn cynnig y dylid parhau i eithrio prosiectau tir comin o'r Gyfarwyddeb AEA os yw'r drefn o roi caniatâd ar gyfer tir comin o dan adran 38 o Ddeddf Tiroedd Comin 2006 eisoes ar waith. Byddwn yn diwygio'r cyfeiriad at adran 194 o Ddeddf Cyfraith Eiddo 1925 ym mharagraff 3(2)(f) o Reoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Lloegr) (Rhif 2) 2006 trwy gyfeirio at adran 38 o Ddeddf Tiroedd Comin 2006. Bydd pob cais am ganiatâd ar gyfer "*restricted works*" ("gwaith cyfyngedig") o dan adran 38 o'r Ddeddf yn cael eu penderfynu gan yr Arolygiaeth Gynllunio, ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol, yn erbyn y meini prawf manwl a nodir yn adran 39 o'r Ddeddf honno ac yn unol â pholisi caniatadau Tir Comin Defra.

Cwestiwn 16: Ydych chi'n cytuno gyda'r newid arfaethedig?

Rheoliadau Gwaith Morol

3.80 Rydym wedi nodi'r canlynol nad ydynt yn cael sylw yn y rhannau blaenorol o'r ddogfen hon, a byddem yn croesawu unrhyw sylwadau sydd gennych chi.

3.81 Mae Erthygl 2(4) yn gosod darpariaethau mewn achosion eithriadol sy'n eithrio prosiect penodol – ar hyn o bryd, mae'r Rheoliadau Gwaith Morol yn gwneud darpariaeth ar gyfer eithrio gweithgareddau a reoleiddir o AEA os oes amgylchiadau eithriadol. Rydym yn cynnig y dylid atodi'r darpariaethau presennol i drawsodi erthygl 2(4) (a) (lle mae math arall o asesiad yn briodol) a (b) (gan sicrhau bod gwybodaeth benodol ar gael i'r cyhoedd) o'r Gyfarwyddeb AEA, a byddwn yn defnyddio'r dull copïo.

3.82 Mae Erthygl 2(5) yn gofyn am brosiectau a fabwysiadwyd trwy ddeddfwriaeth genedlaethol benodol – nid yw'r Rheoliadau Gwaith Morol yn cynnwys yr eithriad hwn ar hyn o bryd. Rydym yn cynnig y dylid diwygio'r Rheoliadau i gynnwys darpariaeth ar gyfer hyn, gan ystyried deddfwriaeth yn ymwneud â'r Gweinyddiaethau Datganoledig fel sy'n briodol.

3.83 Mae Erthygl 5(3) yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddefnyddio arbenigwyr cymwys – bydd y Rheoliadau Gwaith Morol yn defnyddio'r un dull â gweddill y Rheoliadau AEA yn yr ymgynghoriad hwn. Fodd bynnag, mewn perthynas ag Erthygl 5(3)(c), byddwn yn egluro yn unol â'r erthygl hon y dylai unrhyw wybodaeth bellach y gofynnir amdani fod yn uniongyrchol berthnasol i'r broses o ddod i'r casgliad rhesymegol.

3.84 Mae Erthygl 9(1) yn gosod darpariaethau ar gyfer hysbysu'r cyhoedd a chyrrff ymgynghori – mae'r Rheoliadau Gwaith Morol yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdod priodol anfon cadarnhad ysgrifenedig o'i benderfyniad caniatâd AEA at yr ymgeisydd, y rheoleiddiwr (oni bai mai'r awdurdod priodol yw'r rheoleiddiwr), aelodau'r cyhoedd a gyflwynodd sylwadau, cyrrff ymgynghori a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad ac awdurdodau Gwladwriaethau yn yr EEA yr ymgynghorwyd â nhw. Rydym yn cynnig y dylid cynnwys rhwymedigaeth gyfwerth ar y rheoleiddiwr mewn perthynas â hysbysu partïon o'r fath am y penderfyniad rheoleiddiol. Rydym yn cynnig y dylai'r rhwymedigaeth hon ar yr awdurdod priodol a'r rheoleiddiwr gael ei chyflwyno cyn gynted â phosibl.

3.85 Rydym yn cynnig y dylid diwygio'r Rheoliadau fel ei bod hi'n ofynnol i awdurdod priodol sicrhau:

- a) Bod hysbysiad o'r penderfyniad caniatâd AEA yn cael ei gyhoeddi (i) yn electronig ar wefan briodol yr awdurdod; (ii) yn y papurau newydd/cyhoeddiadau a ddefnyddir ar gyfer yr hysbysiad o'r cais sy'n ofynnol gan y Rheoliadau a (iii) mewn unrhyw ffordd arall a ystyrir yn briodol.
- b) Y bydd hysbysiad o'r fath yn nodi bod y wybodaeth sy'n ofynnol yn y Rheoliadau, ynghyd â datganiad sy'n cynnwys y wybodaeth y cyfeirir ati yn Erthygl 9(1)(b), ar gael (i) ar y Gofrestr Gyhoeddus berthnasol (ar gyfer gweithgareddau a reoleiddir o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009; (ii) yn y cyfeiriad/lleoliad a enwebwyd o dan y Rheoliad, ar gyfer unrhyw weithgareddau eraill a reoleiddir.
- c) Y bydd hysbysiad o'r fath yn nodi'r amseroedd y bydd modd archwilio'r Gofrestr Gyhoeddus neu wybodaeth berthnasol yn y cyfeiriad/lleoliad perthnasol.

3.86 Rydym yn cynnig hefyd y dylai'r un darpariaethau fod yn berthnasol i'r rheoleiddiwr mewn perthynas â'r penderfyniad rheoleiddiol (oni bai mai'r awdurdod priodol yw'r rheoleiddiwr).

3.87 Erthygl 9(2) (gofynion trawsffiniol): Mae Rheoliad 23(1)(e) o'r Rheoliadau Gwaith Morol yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdod priodol anfon cadarnhad ysgrifenedig o'r penderfyniad caniatâd AEA at unrhyw awdurdodau Gwladwriaeth yn yr EEA yr ymgynghorwyd â nhw o dan reoliad 20 o'r Rheoliadau Gwaith Morol. Yn ogystal â chadarnhad ysgrifenedig o'r penderfyniad caniatâd AEA, hoffem egluro y bydd yr awdurdod priodol yn anfon datganiad yn cynnwys y wybodaeth a amlinellir yn erthygl 9(1)(b) o'r Gyfarwyddeb AEA at awdurdodau o'r fath. Rydym yn cynnig hefyd y dylid ei gwneud hi'n ofynnol i'r rheoleiddiwr anfon datganiad yn cynnwys y wybodaeth a amlinellir yn erthygl 9(1)(b) at awdurdodau o'r fath.

Y Gymraeg

3.88 Nod y dull polisi a amlinellir yn y papur ymgynghori hwn yw trawsodi gofynion y Gyfarwyddeb i sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei warchod ac i leihau beichiau gweinyddol. Hoffem glywed eich barn am yr effeithiau y byddai'r dull polisi hwn yn eu cael ar y Gymraeg.

3.89 Ni chredwn fod y polisi'n effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg nac yn trin yr iaith yn llai ffafriol na Saesneg, ac ni chredwn y gellid ei ail-greu na'i ddiwygio i gael effeithiau cadarnhaol.

Cwestiwn 17. Ydych chi'n credu bod gan y dull polisi unrhyw oblygiadau i'r Gymraeg?

Asesu'r effeithiau

3.90 Mae'r newidiadau i Gyfarwyddeb 2014 yn ceisio lleihau'r baich trwy leihau nifer yr achosion sy'n mynd trwy'r broses AEA; bydd y buddiannau i'w gweld yn bennaf yn y datblygiadau mawr sydd fel arfer angen adroddiad asesu'r effeithiau amgylcheddol.

3.91 Mae economegwyr Defra wedi cynnal asesiad cychwynnol o gost y newidiadau arfaethedig i fusnesau, ac mae hyn wedi dangos bod lefel y gost yn is o lawer ym mhob un o drefnau cydsynio Defra a gwmpesir gan yr ymgynghoriad hwn na'r terfyn o £1 miliwn sy'n ofynnol i sbarduno'r angen i Asesu'r Effeithiau. Rydym yn croesawu sylwadau a thystiolaeth o gostau uniongyrchol y newidiadau arfaethedig i reoliadau AEA Defra i fusnesau. Bydd y sylwadau a'r dystiolaeth hon yn cael eu defnyddio i wneud asesiad pellach o'r costau uniongyrchol i fusnesau yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.

Croesewir sylwadau a thystiolaeth o gostau uniongyrchol y newidiadau arfaethedig i reoliadau AEA Defra i fusnesau.

Cydraddoldebau

3.92 Mae Defra, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban yn rhannu dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a ddaeth i rym ledled Prydain ar 5 Ebrill 2011. Ar gyfer Gogledd Iwerddon, mae Adran 75 o'r Northern Ireland Act 2008 yn gosod dyletswydd statudol debyg ar awdurdodau cyhoeddus.

3.93 Wrth ddatblygu'r cynigion hyn, aethom ati i asesu effaith y newidiadau i'n rheoliadau AEA, gan ystyried dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Fel rhan o'r asesiad, aethom ati i ystyried dileu'r gofyniad i gynnwys defnyddio papurau newydd fel rhan o'r rhwymedigaeth ar awdurdodau cymwys wrth gyflawni eu swyddogaethau i gyhoeddi penderfyniadau cwmpasu i ymgynghori â'r cyhoedd ar brosiectau arfaethedig. Daethom i'r casgliad y byddai cadw'r cyfeiriad at bapurau newydd yn helpu i sicrhau bod yr ymgynghoriadau cyhoeddedig yn rhoi sylw priodol i'r angen i: sectorau o'r cyhoedd heb fynediad at gyfrifiadur.

3.94 Yn seiliedig ar ein hasesiad cychwynnol o'r cynigion eraill, credwn ei bod hi'n debygol na fydd unrhyw effaith ar grwpiau agored i niwed, ond byddwn yn adolygu hyn yn rheolaidd.

Rhan 4: Beth sy'n digwydd nesaf?

4.1 Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad hwn yw 31 Ionawr 2017. Bydd ymatebion a ddaw i law erbyn y dyddiad hwnnw yn cael eu dadansoddi a'u hystyried gan Weinidogion wrth iddynt ystyried y cynigion ar gyfer diwygio'r rheoliadau. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi. Os na hoffech chi i'ch ymateb gael ei gyhoeddi, dylech chi nodi hynny'n glir yn eich ymateb.



© Hawlfraint y Goron 2016

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng o dan delerau'r drydedd fersiwn o'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ neu anfonwch e-bost i PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylai unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn gael eu hanfon atom yn better.regulation@defra.gsi.gov.uk